Byd-Weithio!

Meithrin sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang weithredol

Cyfnodau allweddol tri a phedwar

actionaid

CAFOD IT'S TIME FOR JUSTICE

Cymorth Cristnogol
Credwn mewn byw cyn marw

Oxfam

Achub y Plant

DFID

Ewch ati!

...i Fyd-Weithio!

CYFLWYNIAD

Y broses Byd-Weithio! 02
Themâu craidd Byd-Weithio! 03
Cefndir Byd-Weithio! 03
Byd-Weithio! a'r ysgol gyfan 07

EWCH – CYCHWYNNWCH 08

ADRAN UN

Camau Byd-Weithio! 14
Cam 1 – Ewch i holi 16
Cam 2 – Ewch i ddewis pwnc 22
Cam 3 – Ewch i chwilio am ragor o wybodaeth 32
Cam 4 – Ewch i gynllunio 40
Cam 5 – Ewch i weithredu 50
Cam 6 – Ewch i gnoi cil 56

ADRAN DAU

Ewch i asesu 64

ADRAN TRI

Ewch i chwarae 72

EWCH ATI I GYSYLLTU â NI 80

TAFLENNI GWAITH Y CAMAU 83

TAFLENNI GWAITH ASESU A GWERTHUSO 109

Ysgrifennwyd gan Joanne Price
â chymorth gan Janet Convery, Eirian Samuel a Heather King

Cynhyrchwyd Byd-Weithio! â chyllid oddi wrth ActionAid, CAFOD, Cymorth Cristnogol, Oxfam, Achub y Plant a'r Adran Dros Ddatblygu Rhyngwladol.

Mae Byd-Weithio! ar gael ar ffurf PDF ar y gwefannau hyn:
www.actionaid.org.uk/schoolsandyouth/newmaterials
www.cafod.org.uk/schools/teachersresources
www.christian-aid.org.uk/learn
www.oxfam.org.uk/coolplanet/teachers
www.savechildren.org.uk/education

Ffotograffwyr:
Benedict Parsons, Sefydliad y Gymanwlad
Harriet Logar, Actionaid/Network
Laurence Watts, Actionaid

Cyfieithwyr
Eurig Salisbury
Glenys M. Roberts, ARAUL

Canllaw i athrawon yw Byd-Weithio! i hwyluso dinasyddiaeth fyd-eang weithredol yn yr ystafell ddosbarth a'u helpu i'w hasesu.

Mae'n darparu strwythur i fyfyrwyr fel y gallant reoli eu dysgu eu hunain.

Mae'n gadael iddynt symud ymlaen o feddwl am bynciau sy'n bwysig iddyn nhw, at gynllunio a chymryd rhan yn weithredol. Yna gallant fyfyrio ac ystyried eu cyfraniad, ac asesu eu gwaith.

Mae amrywiaeth o syniadau cyfranogol a blaengar yn hybu dull sy'n seiliedig ar sgiliau yn hytrach na chynnwys, fel y gellir defnyddio'r sgiliau hynny mewn gwahanol feysydd pwnc ac â phob oedran.

Byd-Weithio!

Rhennir Byd-Weithio! yn dair adran. Mae'r adran gyntaf yn sefydlu'r broses Byd-Weithio!, gan roi manylion am y chwe cham uchod. Mae pob cam yn cynnwys gweithgareddau, templedi a syniadau defnyddiol ar gyfer hwyluso asesu dinasyddiaeth fyd-eang weithredol. Yn adran dau amlinellir gweithgareddau asesu a gwerthuso, ac mae adran tri yn cynnwys syniadau ar gyfer gemau. Mae taflenni gwaith y gellir eu llungopïo ar gyfer gweithgareddau i'w cael yng nghefn y canllaw.

Y broses Byd-Weithio!

Cam 1 – Ewch i holi
Cam 2 – Ewch i ddewis pwnc
Cam 3 – Ewch i chwilio am ragor o wybodaeth
Cam 4 – Ewch i gynllunio
Cam 5 – Ewch i weithredu
Cam 6 – Ewch i gnoi cil

Themâu craidd Byd-Weithio!

Mae dinasyddiaeth fyd-eang weithredol yn ymwneud â galluogi myfyrwyr i gymryd rhan gyflawn mewn cymdeithas fyd-eang. Gellir ei chrynhoi â thair thema greiddiol. Y rhain sydd wrth wraidd y meddylfryd Byd-Weithio!, a thynnir sylw atynt drwy gydol y canllaw hwn.

1. **Rhoi profiad o allu gwneud gwahaniaeth drwy weithredu.**

2. **Datblygu sgiliau ymholi, cyfranogi ac adfyfyrio.**

3. **Datblygu dealltwraieth o'r byd fel cymuned fyd-eang, a thrafod goblygiadau gwleidyddol, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol hynny.**

Cefndir Byd-Weithio!

Mewn pôl MORI yn ddiweddar gofynnwyd am ymateb pobl ifanc i'r gosodiad canlynol: 'Mae angen i bobl ifanc ddeall pynciau byd-eang er mwyn iddynt fedru gwneud dewisiadau ynglŷn â sut i fyw eu bywydau.' Cytunai 80% â'r gosodiad. Roedd 33% yn cytuno'n gryf. Teimlai 54% yn ddi-rym i wneud unrhyw beth yn ei gylch.

Ymateb yw Byd-Weithio! i'r teimlad ymhlith pobl ifanc eu bod yn ddi-rym yn eu hymdrechion i geisio newid y byd o'u hamgylch.

Mae Byd-Weithio! hefyd yn ymateb i'r potensial enfawr o gael addysg ddinasyddiaeth yn rhan o'r cwricwlwm lle y gall myfyrwyr leisio barn a gweithredu'n gyfrifol yn eu cymuned – boed yn yr ysgol, yn lleol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang. Fe'i seilir ar y gred bod sgiliau a gysylltir â bod yn ddinesydd byd-eang gweithredol, e.e. cyfathrebu, ymholi a meddwl yn feirniadol, yn hanfodol ar gyfer delio â gofynion byd sy'n mynd fwyfwy dan ddylanwad globaleiddio ac yn gynyddol gyd-ddibynnol.

Mae'r fethodoleg sydd wrth wraidd Byd-Weithio! yn seilieidig ar ddulliau dysgu sy'n cael eu galw'n dechnegau arfarnu gwledig cyfranogol (participatory rural appraisal – PRA) a ddatblygwyd mewn gwledydd sy'n llai datblygedig yn economaidd. Mae'r rhain yn annog pobl i gydweithio er mwyn archwilio pynciau sy'n berthnasol i'w bywydau nhw. Defnyddiant amryw ddulliau dysgu cyfranogol ac offer gweledol, fel graffeg, er mwyn deall ac asesu rolau pobl yn y gymuned, a sut mae modd iddynt greu newid. Fel Byd-Weithio!, yn eu hanfod maent yn ymwneud â nerthu unigolion a grwpiau i fynd i'r afael â phynciau sy'n bwysig ym mywyd y cyfranogwyr. Mae'r offer yn eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i drafod a datrys pynciau.

Un dull o'r math yma yw *Reflect*. Cafodd ei ddatblygu gan ActionAid yn 1993 ac mae'n asio theorïau Paulo Freire, addysgwr o Brasil, â PRA. Dengys Stori Balama ar y dudalen nesaf sut mae *Reflect* yn annog pobl i ddadansoddi'r cysylltiadau rhwng pynciau lleol a grymoedd ehangach, fel bod modd i'r gymuned ddylanwadu ar newid yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Am fwy o wybodaeth gweler: www.reflect-action.org

Stori Balama

Balama ydw i. Rwy'n byw gyda 'nheulu yn Nwyrain Godivari, India. Rydym yn deulu tlawd, nid ydym yn berchen ar unrhyw dir, ac rydym yn byw ar y goedwig. Byddwn yn cynaeafu planhigion gwyllt ac yn tyfu cnydau bwyd ar y bryniau. Ond yn ddiweddar, daeth pobl o'r tu allan a phrynu ein tir – maen nhw'n gwneud arian a chawn ninnau ein gadael ar waelod y domen. Maen nhw'n rhoi pwysau arnom i roi'r gorau i'n dulliau ni a thyfu cnydau gwerthu – maen nhw'n addo y bydd pethau'n gwella. Y flwyddyn gyntaf fe wnaethon ni blannu cotwm a gwneud elw da – ar un acer gwnaethom 3,000 rwpî. Ond y flwyddyn ganlynol fe wnaeth y cnwd i gyd fethu.

Ychydig o flynyddoedd yn ôl fe ddechreuodd y gymuned gyfarfod a thrafod pethau. Fe wnaethon ni ddefnyddio'r dull *Reflect* i'n helpu i siarad am y pethau hyn. Mae'n hwyl, rydyn ni'n cynnal dramâu, tynnu lluniau ar y llawr a siarad a rhannu pryderon. Yn hytrach na bod ar wahân gyda'n problemau, rydyn ni i gyd yn awr yn eistedd gyda'n gilydd ac yn dadansoddi beth sy'n digwydd yn ein pentref – a sut y gallwn gydweithio i newid pethau. Siaradwn am bethau sydd o bwys yn ein bywydau, a gyda'n gilydd down o hyd i ffyrdd newydd o ddatrys ein problemau. Mae dysgu sgiliau newydd wedi fy helpu i fod yn fwy hyderus wrth gyfathrebu. Rwy'n dysgu lleisio barn, a gofyn cwestiynau. Roedden ni'n arfer rhedeg i ffwrdd pan ddeuai pobl ddieithr i'r pentref. Nawr mae gennym yr hyder i'w hwynebu.

Yn y *Gotti* (cyfarfod traddodiadol y pentref) trafodwyd sefyllfa ein cnydau. Fe wnaethon ni sylweddoli bod nifer ohonom wedi newid o'n cnydau traddodiadol i gotwm a thobaco, a bod hyn wedi achosi problemau i bawb ohonom. Rhaid gweithio llawer mwy ar y cnydau newydd yma na'r hen rai – ac os methan nhw, does dim arian gennym i brynu bwyd. Wedi trafod hyn yn y Gotti fe wnaethon ni sylweddoli bod gennym ddewis ynglŷn â pha gnydau i'w tyfu. Felly rydyn ni wedi penderfynu ein bod am blannu cotwm a thobaco ar hanner ein tir yn unig – cadwn y gweddill ar gyfer ein cnydau bwyd. Am fod y Gotti gennym roedd modd inni wneud y penderfyniad hwn gyda'n gilydd. Nid wyf yn credu y buaswn i wedi medru gwneud y penderfyniad hwn ar fy mhen fy hun.

Mae'r *Gotti* wedi gwneud inni sylweddoli nad ydym ar ein pennau ein hunain wrth frwydro am dir. Ar ddiwrnod rhyngwladol y merched, fe wnaethon ni gyfarfod â phobl o bentrefi eraill a rhannu ein storïau. Fe sefais i ar fy nhraed a dweud hanes ein pentref ni wrth bawb – ac fe wnaeth pawb wrando. Teimlwn i'n ddewr ac yn uchel fy mharch. Mae gennym hawliau dros ein coedwig. Ni all neb godi pwysau trwm ar ei ben ei hun. Gydag un bys ni ellir codi unrhyw beth: mae angen y pum bys i godi rhywbeth – mae'n rhaid inni ymladd dros ein hawliau gyda'n gilydd.

Rwy'n dysgu lleisio barn, a gofyn cwestiynau.

Byd-Weithio! – Hanes y Prosiect

Mae'r canllaw hwn yn ganlyniad i brosiect ymchwil helaeth a chyffrous yn rhychwantu dwy flynedd. Dechreuodd yn 2001 ac mae wedi golygu gweithio ag ymgynghorwyr dinasyddiaeth, addysg a datblygu a thros 30 o ysgolion ledled Cymru a Lloegr. Ar y tudalennau sy'n dilyn mae awgrymiadau defnyddiol gan athrawon a myfyrwyr, o amryfal feysydd pwnc ac oedrannau, ynglŷn â'r ffyrdd gorau o ddefnyddio'r canllaw; enghreifftiau ac astudiaethau enghreifftiol o beth ddigwyddodd yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi; a delweddau cryf sy'n cyfleu rhyw gymaint o'r egni a'r creadigrwydd a gynhyrchwyd gan y prosiect.

Fe wnaethon ni sylweddoli bod nifer ohonom wedi newid o'n cnydau traddodiadol i gotwm a thobaco.



Maen nhw wrth eu bodd efo'r gwersi ac yn mynd o'r dosbarth yn siarad amdanyn nhw. Gobeithio y bydd yn ysbrydoli myfyrwyr ac athrawon eraill, fel na fydd Dinasyddiaeth yn mynd yn 'farwolaeth trwy daflen waith'. Un o athrawon grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr



Mae Dinasyddiaeth wedi deffro!
Un o athrawon grŵp De Cymru

Hyblyg, amrywiol, diddorol
Un o athrawon grŵp Gogledd-ddwyrain. Lloegr

Ben Williams ydw i. Rwy'n bedair ar ddeg oed ac yn aelod o'r dosbarth blwyddyn deg, Astudiaethau Dinasyddiaeth TGAU (cwrs byr) yn Ysgol Uwchradd Bedwas, ger Caerffili. Pwnc oedd o bwys i'r gymuned leol a ddewisodd y dosbarth ar gyfer y prosiect Byd-Weithio! Clywson ni fod Gorsaf Drosglwyddo Gwastraff i gael ei lleoli mewn hen ffatri gyferbyn â'r ysgol. Penderfynon ni ddewis y pwnc hwn gan y bydd yn effeithio ar lawer o bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal ac yn ymweld â'r ardal. Gan fod y safle mor agos i'r ysgol, byddai'n cael effaith hefyd ar ein hamgylchedd ni ac efallai ar ein haddysg.

Fel dosbarth, penderfynon ni gasglu gwybodaeth am y pwnc trwy wahodd pobl i siarad â'n dosbarth a oedd yn gwybod am y cynllun a'r manylion. Roeddent yn gallu rhoi'r ddwy ochr i'r ddadl – dros ac yn erbyn y datblygiad. Daeth ein Cynghorydd Cymuned lleol, aelod o Adran Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili (CBC), ein haelod o Senedd Ewrop, Mrs Glenys Kinnock, ac Aelod Seneddol i gyd i siarad â ni a rhoi eu barn. Gwyddom y bydd beth wnawn ni fel unigolion â gwastraff, defnyddio dŵr etc. yn effeithio ar bobl yn India ac Affrica. Rydym yn gwybod hefyd bod cynhesu'r byd yn effeithio ar ein hinsawdd ninnau weithiau, e.e. bu llifogydd mewn rhannau o Loegr yn ystod gwyliau'r Nadolig.

Ar ôl casglu gwybodaeth am y pwnc o wahanol ffynonellau, aethom ati i ysgrifennu llythyrau at ein cynrychiolwyr etholedig. Yn ddiweddarach yn y mis bydd y Pwyllgor Cynllunio yn cyfarfod ac yno bydd y cais ar gyfer y datblygiad hwn yn cael ei drafod. Mae ein hathrawes wedi gwneud cais am 'Hawl i Drydydd Parti Siarad' fel y caiff aelod o'n dosbarth fynd i siarad yn y cyfarfod. Mae'n rhaid inni aros am gymeradwyaeth. Bydd grŵp bychan o ddisgyblion yn mynd i'r cyfarfod ac yn adrodd yn ôl wrth y dosbarth am y cyfarfod cynllunio. Yn unol ag Agenda 21, rydym yn awyddus i ddiogelu ein cymuned heddiw, fel na fydd raid i genedlaethau'r dyfodol fyw â chanlyniadau penderfyniad cynllunio a fydd yn niweidiol i'r amgylchedd lleol.

Byd-tastig. Myfyriwr, grŵp Gogledd Cymru

Byd-Weithio!
a'r ysgol gyfan



Mae tair adran yn y broses Byd-Weithio!: gweithgareddau'r camau, gweithgareddau asesu a gwerthuso, a gemau. Mae pob un yr un mor bwysig â'i gilydd ac mae angen eu cynnwys o ddechrau'r wers gyntaf. Mae'r gweithgareddau asesu a gwerthuso yn galluogi myfyrwyr i gofnodi, monitro ac adfyfyrio ar eu cynnydd trwy'r chwe cham, ac mae'r gemau'n sicrhau bod myfyrwyr yn mwynhau'r profiad.

– cychwynnwch!

Ewch ati – cychwynnwch!

Yr allwedd i gynllunio llwyddiannus yw:

- cadw pethau'n syml:
- penderfynu a ydych yn mynd i gyflwyno'r broses mewn hanner tymor, tymor, neu fel cyfres o ddyddiau ar wahân i'r amserlen
- dewis amrywiaeth o weithgareddau a gemau sy'n gweddu i anghenion eich myfyrwyr
- cynnwys o leiaf un o weithgareddau'r cam a chymysgedd o weithgareddau asesu/gwerthuso a gemau ym mhob cam
- ymateb i anghenion myfyrwyr unigol ac anghenion y grŵp, a bod yn agored i bosibilrwydd mireinio gweithgareddau ac ailgynllunio'r broses.

Gellir addasu a defnyddio'r gweithgareddau a'r gemau mewn gwahanol gyfuniadau drosodd a throsodd. Gall myfyrwyr symud trwy'r chwe cham sawl gwaith gan ddewis a defnyddio amrywiaeth o weithgareddau neu bynciau, a byddant yn cael profiad gwahanol bob tro o ddysgu sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang weithredol.

Mae'r tablau isod yn enghreifftiau o ddau lwybr trwy'r broses Byd-Weithio! Maent yn dangos sut y bydd defnyddio ychydig o weithgareddau a gemau sylfaenol a'u haddasu i wahanol gyd-destunau yn sicrhau profiad dysgu ac addysgu bywiog, newidiol a chyffrous.

Yr enghraifft gyntaf

Proses Byd-Weithio! gan ddefnyddio naw gwers

Cam 1: dwy wers	**Cam 2: dwy wers**	**Cam 3: un wers**
Gweithgaredd: *Dyfodol delfrydol (t18)* Gêm: *Y llinell ddistaw (t77)* Gwerthuso: *Blodau disgwyliadau (t66)*	Gweithgareddau: *Pleidleisio â'ch traed (t24)* *Dosbarthu pynciau (t25)* *Cadwyn pam-pam-pam (t25)* Gêm: *Dychmygu (t75)*	Gweithgareddau: *Coeden bynciau (t34)* Gwerthuso: *Ysgwyd dwylo (t69)*
Cam 4: un wers	**Cam 5: unwers**	**Cam 6: dwy wers**
Gweithgareddau: *Chwarae cardiau gweithredu (t44)* *Cynllun gweithredu (t46)* Gêm: *Cadarnhaol a negyddol (t78)*	Gweithred: *Llunio posteri er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r pwnc a'u harddangos o gwmpas yr ysgol. Llenwi'r daflen weithgaredd Cofnodi'r weithred (t104)*	Gweithgaredd: *Adfyfyrio (t58)* Gwerthuso: *Blodau disgwyliadau (t66)* *Siart sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang weithredol (t66)*

Yr ail enghraifft

Proses Byd-Weithio! gan ddefnyddio pedair gwers ar ddeg

Cam 1: tair gwers	**Cam 2: dwy wers**	**Cam 3: dwy wers**
Gweithgareddau: *Dylanwadu ar bobl* (t18) *Pŵer – o'r lleol i'r byd-eang* (t19) Gêm: *Dwrn agored* (t77) *Yr un di-hwm* (t74) Gwerthuso: *Portffolio* (t66) *Grwpiau ffocws* (t66)	Gweithgareddau: *Eich dewis chi* (t25) *Rhesymau dros y pwnc* (t27) *Graddio pynciau* (t27) Gêm: *Gwrandewch* (t78)	Gweithgareddau: *Pa lwybr?* (t34) *Chwilio r Rhyngrwyd* (t35) *Dadlau ynghylch y pwnc* (t35) Gwerthuso: *Yr olwyn ddwbl* (t69)
Cam 4: tair gwers	**Cam 5: dwy wers**	**Cam 6: dwy wers**
Gweithgareddau: *Beth rydyn ni ei eisiau* (t42) *Brics a morthwylion* (t42) *Pa weithred?* (t44) *Gofyn barn* (t44) *Cyfathrebu* (t45) *Afon amser* (t45) Gêm: *Cerfluniau pŵer* (t76) *Cylch coed yn cwympo* (t77)	Gweithred: *Trefnu dadl a gwahodd siaradwyr i'r ysgol i siarad am y pwnc. Meddwl am amryfal ddulliau o hysbysebu a chofnodi'r digwyddiad.*	Gweithgaredd: *Beth nesaf?* (t58) Gêm: *Beth yw hwn…* (t76) Gwerthuso: *Olwyn werthuso* (t67) *Adborth gan y grŵp ffocws* (t66)

Gweithgareddau hwyluso

- annog datgan y nifer mwyaf posib o wahanol syniadau a safbwyntiau
- ymdrechu i fod yn drylwyr drwy barhau i ofyn Pam? Beth wyt ti'n ei olygu wrth hynny? neu drwy gynnig gwrth-ddadl heriol
- gochel rhag aralleirio cyfraniadau'r myfyrwyr, ond ceisio'u hailadrodd gan ddefnyddio eu hunion eiriau
- ehangu drwy ddangos y cysylltiadau rhwng syniadau, a'r cysylltiadau â syniadau newydd sydd i'w trafod
- annog myfyrwyr i ymateb i syniadau'i gilydd ac adeiladu arnynt.

Roedd camau a thaflenni gwerthuso Byd-Weithio! yn gyflwyniad delfrydol i Ddinasyddiaeth TGAU.
Un o athrawon grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr

Symud drwy'r camau

Mae'r broses Byd-Weithio! yn dechrau â cham un ac yn gorffen â cham chwech. Serch hynny, mae'n bosib symud i fyny ac i lawr y camau trwy ymateb i amgylchiadau ar y ffordd. Er enghraifft, os ceir gwybodaeth yng ngham tri ynghylch rhywbeth sy'n berthnasol i'r pwnc gwreiddiol, mae'n bosib y byddai'r myfyrwyr yn penderfynu dychwelyd i gam dau a dewis pwnc arall. Hefyd, os yw'r weithred a ddewiswyd yn dod yn amhosib yng ngham pump, bydd angen i'r myfyrwyr ailfeddwl a dychwelyd i ailgynllunio eu syniadau yng ngham pedwar.

YR UNIG BETH GWAEL AM BYD-WEITHIO! AM WN I OEDD Y PRINDER AMSER.
Myfyriwr, grŵp Gogledd Cymru

– camau Byd-Weithio!

Mae camau Byd-Weithio! yn galluogi myfyrwyr i symud o ddewis pwnc sy'n bwysig iddyn nhw, ymlaen at ymchwilio i'w ddimensiwn lleol a byd-eang. Yna byddant yn cynllunio sut i weithredu, ac yn cymryd rhan yn y gweithredu; byddant yn dadansoddi ac yn ystyried eu cyfraniad, ac yn monitro, cofnodi ac asesu eu gwaith. Mae pob cam yn canolbwyntio ar dair thema greiddiol Byd-Weithio! a amlinellir yn y cyflwyniad, ac ar sgiliau dinasyddiaeth penodol. Wrth i'r camau fynd yn eu blaen, mae'r themâu a'r sgiliau hyn yn cael eu datblygu a'u hymestyn. Erbyn cam chwech bydd gan fyfyrwyr ddealltwriaeth glir o ddinasyddiaeth fyd-eang weithredol a bydd ganddynt y sgiliau i wneud rhywbeth cadarnhaol i greu newid.

1 Ewch i holi

Cam 1

Mae cam un yn golygu bod y myfyrwyr yn archwilio eu dealltwriaeth, eu gwerthoedd a'u hagweddau tuag at ddinasyddiaeth fyd-eang weithredol. Gellir defnyddio'r cam hwn fel llinell sylfaen ar gyfer mesur a chofnodi ymateb y disgyblion, a gellir ailadrodd gweithgareddau drwy gydol y cynllun.

2 Ewch i ddewis pwnc

Cam 2

Mae cam dau yn cael y myfyrwyr i daflu syniadau a chael hyd i bynciau pwysig sy'n cael effaith ar eu bywydau nhw. Mae'n eu helpu i feddwl am y pynciau mewn cyd-destun lleol a byd-eang, ac yna i ddewis un i weithredu arno er mwyn gwella'r sefyllfa.

3 Ewch i chwilio am ragor o wybodaeth

Cam 3

Mae cam tri yn golygu bod y myfyrwyr yn chwilio am ragor o wybodaeth am eu pwnc dewisedig. Mae'n eu galluogi i ymchwilio'n drylwyr i'r pwnc a gweld sut y mae'n cael effaith ar bobl ac amgylcheddau yn lleol ac yn fyd-eang.

4 Ewch i gynllunio

Cam 4

Mae cam pedwar yn golygu bod y myfyrwyr yn penderfynu beth i'w wneud ac yn cynllunio sut i weithredu. Mae'n eu helpu i ystyried pa mor ymarferol yw eu syniadau, a thrin a thrafod y goblygiadau ymarferol.

5 Ewch i weithredu

Cam 5

Mae cam pump yn golygu bod y myfyrwyr yn gweithredu. Mae'n eu helpu i gofnodi a monitro eu datblygiad.

6 Ewch i gnoi cil

Cam 6

Mae cam chwech yn golygu bod y myfyrwyr yn adfyfyrio ar y broses Byd-Weithio! Mae'n eu hannog i ystyried beth maent wedi ei ddysgu a'i gyflawni, a beth y byddent yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Cam 1 Pwrpas cam un yw gosod llinell sylfaen ar gyfer mesur a chofnodi dealltwriaeth a gwerthoedd myfyrwyr a'u hagweddau tuag at dair thema graidd Byd-Weithio! Mae'n cydnabod ac yn ymestyn y cyfoeth o wybodaeth a sgiliau sydd gan fyfyrwyr eisoes. Gellir ailadrodd y gweithgareddau ar wahanol adegau yn ystod y broses ac eto ar ei diwedd.



i holi

Nod cam 1 yw:

- annog myfyrwyr i archwilio ac i gwestiynu eu gwerthoedd a'u hagweddau tuag at eu gallu i wneud gwahaniaeth; eu cysylltiadau â phobl eraill; a'u dealltwriaeth ynglŷn â'u perthynas â'r byd ehangach

- datblygu ac ehangu sgiliau ymholi – cwestiynu, datblygu ac egluro dealltwriaeth, gwerthoedd ac agweddau; cyfathrebu – cyfrannu at drafodaethau archwiliol mewn grŵp ac yn y dosbarth

Gweithgareddau i ddewis o'u plith

Dyfodol delfrydol 18

Mapio ein byd 18

Dylanwadu ar bobl 18

Pŵer – o'r lleol i'r byd-eang 19

Arolwg o ddinasyddiaeth fyd-eang weithredol 19

1 Dyfodol delfrydol

Gweithgaredd sy'n archwilio ffyrdd o amgyffred y byd.

Meddyliwch sut yr hoffech i chi eich hun/eich ysgol/eich ardal/eich gwlad/eich byd edrych ymhen deng mlynedd. Meddyliwch beth yw nodweddion dinasyddion da. Beth fyddai yn y byd sydd ddim gennym yn awr?

Cyflwynwch y syniadau ar bosteri neu fapiau trwy ysgrifennu a thynnu lluniau.

Trafodwch pa rai o'r pethau hyn yw'r pwysicaf a'r mwyaf realistig, a sut y byddai'n bosibl cyflawni pob un. Ystyriwch: Gan bwy mae'r mwyaf o bŵer i newid pethau? Beth allech chi ei wneud, tybed? Ar bwy y gallech chi ddylanwadu er mwyn newid pethau?

2 Mapio ein byd

Gweithgaredd sy'n archwilio ffyrdd o amgyffred y byd.

Meddyliwch am ffyrdd o gynrychioli'r ysgol, a thynnwch symbolau i gyfleu hyn, e.e. rhywbeth sy'n cynrychioli dysgu. Rhowch y symbolau mewn lle arbennig ar y wal neu ar y llawr.

Mae pob myfyriwr yn tynnu symbol i gynrychioli'r lle mae'n byw ac yn ei roi ar y wal neu ar y llawr mewn perthynas â'r ysgol.

Tynnwch symbolau i gynrychioli llefydd y tu allan i'r ardal y mae gan y myfyrwyr gysylltiad â nhw, e.e. llefydd y maent wedi ymweld â nhw, neu wledydd eraill lle mae ffrindiau neu deulu'n byw. Gosodwch nhw mewn perthynas â'r ysgol.

Pan fydd y map yn gyflawn, eglurwch bob symbol a gofyn cwestiynau fel: Am beth buon ni'n siarad? Beth wnaethon ni ei ddysgu? Beth arall allwn ni ei ychwanegu? Sut mae'r map yn ddefnyddiol? Pwy yw perchen y map?

3 Dylanwadu ar bobl

Gweithgaredd ar gyfer archwilio a dadansoddi dylanwad.

Trafodwch ystyr dylanwad, h.y. effeithio ar y modd y mae rhywun yn meddwl ac yn ymddwyn.

Tynnwch lun diagram gwe o'r bobl sy'n dylanwadu arnoch chi, e.e. unigolion fel rhieni, ffrindiau, a grwpiau fel grwpiau pop, cymdeithasau. Ysgrifennwch eu henwau ar ganol darn o bapur a thynnwch linellau i gysylltu eu henwau ag enwau pobl eraill. Mae hyd y llinell yn cynrychioli faint o ddylanwad mae'r naill berson yn ei gael ar y llall. Mae llinell fer yn cynrychioli llawer o ddylanwad am fod y person arall yn agosach atynt, a llinell hir yn cynrychioli llai o ddylanwad am fod y person arall yn bellach oddi wrthynt.

Ar hyd pob llinell, ysgrifennwch sut mae pob person yn dylanwadu arnoch, e.e. Mae mam yn dylanwadu arna i drwy fy siarsio i fwyta'n iawn.

Tynnwch lun diagram gwe arall, y tro yma o'r bobl yr ydych chi'n dylanwadu arnynt, gyda'r rhai y mae gennych y dylanwad mwyaf arnynt agosaf i'r canol, a'r rhai y mae gennych lai o ddylanwad arnynt yn bellach i ffwrdd o'r canol.

Cymharwch y ddau ddiagram gwe, gan ystyried y pethau tebyg a'r gwahaniaethau, e.e. ai'r bobl yr ydych chi'n dylanwadu arnynt yw'r bobl sy'n dylanwadu arnoch chi hefyd?

Cymharwch eich diagram gwe chi ag un rhywun arall, e.e. a oes gan bawb yr un faint o ddylanwad?

Ystyriwch sut y mae'r bobl ar eich diagram gwe o bosib yn dylanwadu ar ei gilydd, a thynnwch linellau wedi'u labelu er mwyn dangos sut. Bydd yn dechrau edrych fel gwe pry cop. Mae'n bosibl actio'r gweithgaredd hwn hefyd.

4 Pŵer – o'r lleol i'r byd-eang

Gweithgaredd sy'n archwilio a dadansoddi dylanwad a phŵer yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Trafodwch y gwahaniaeth rhwng dylanwad a phŵer. Meddyliwch am y bobl sy'n dylanwadu arnoch a'r bobl sydd â phŵer drosoch yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Cyflwynwch y casgliadau ar y daflen Diagram Chapatti (Taflen Waith 1a) neu trwy roi nodiadau 'post-it' ar gylchoedd mawr ar y wal neu'r llawr.

Cyfrifwch y gyfran o bobl sydd â dylanwad, a'r nifer sydd â phŵer drosoch yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Trafodwch eich canfyddiadau – ai dyma beth roeddech chi'n ei ddisgwyl? A oes enwau yn y cylchoedd sy'n gorgyffwrdd? Beth yw ystyr hynny?

Gwnewch y gweithgaredd eto, gan fanylu y tro yma ar y bobl y mae gennych chi ddylanwad arnynt a'r bobl y mae gennych bŵer drostynt. Ychwanegwch hyn at y Diagram Chapatti gan ddefnyddio pen o liw gwahanol. Lluniwch allwedd i'r diagram.

5 Arolwg o ddinasyddiaeth fyd-eang weithredol

Gweithgaredd sy'n archwilio nodweddion dinasyddion byd-eang gweithredol.

Gall myfyrwyr lenwi'r Arolwg o ddinasyddiaeth fyd-eang weithredol (Taflen Waith 1b) ar ddechrau ac ar ddiwedd y broses Byd-Weithio!.
Fel arall, gallant ei ddefnyddio i gyfweld â'i gilydd, neu â phobl y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gallant grynhoi'r canlyniadau a'u cyflwyno.

Cam 1

Rheolau Sylfaenol

Cyn dechrau unrhyw waith grŵp neu drafodaeth yn y dosbarth, mae'n bwysig sefydlu set o reolau sylfaenol, e.e. ystyried barn pob un; gwrando'n ofalus bob tro; parchu eraill. Gallai'r myfyrwyr a'r athrawon awgrymu nifer o reolau i'r grŵp. Unwaith y mae pawb wedi cytuno ar reol, gallai'r dosbarth ddewis symbol ar ei chyfer fel cofnod gweledol. Gall hyn helpu'r grŵp i deimlo mai nhw sy'n 'berchen' ar y rheolau. Yna gellid arddangos y rhain, ychwanegu atynt, a chyfeirio atynt fel bo'r angen.

Mae gosod y seiliau ar gyfer camau yn y dyfodol yn hanfodol yn fy marn i… bu llawer o drafod ym mhob gwers a ysgogodd y disgyblion i ffurfio barn a syniadau. Un o athrawon grŵp Llundain



Grŵp Llundain

Roedd y grŵp yn fy adnabod yn dda ac yn ymddiried ynof – wrth edrych yn ôl, rwy'n meddwl bod hynny'n bwysig – yn enwedig i fyfyrwyr llai galluog. Un o athrawon grŵp Llundain



Grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr

Mewn sawl ysgol dechreuodd y myfyrwyr gyda nhw eu hunain fel dinasyddion. Buont yn tynnu lluniau o gwmpas ei gilydd ar ddarnau mawr o bapur siart ac yn labelu nodweddion dinesydd da. Yna buont yn casglu erthyglau papur newydd a thoriadau am raglenni teledu fel ffordd o wneud y naid o faterion personol i rai lleol ac yna
i rai byd-eang.

Grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr

Grŵp Llundain

Dysgais lawer am y ffordd y mae'r disgyblion yn meddwl ac yn teimlo am y gymdeithas y maent yn byw ynddi, a sut gymdeithas y dylai fod. Un o athrawon grŵp Llundain

Gwerthoedd ac agweddau
Mae'n hynod o bwysig i athrawon gydnabod eu dealltwriaeth, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain ynghylch dinasyddiaeth fyd-eang weithredol, fel rhan o'r broses o annog myfyrwyr i archwilio eu dealltwriaeth, eu gwerthoedd a'u hagweddau nhw. Bydd hyn yn hwyluso trafodaethau amserol, sy'n fwy perthnasol i fywydau, profiadau a diddordebau'r myfyrwyr.

Yn Ysgol Uwchradd Langdon, Llundain, defnyddiwyd y gweithgaredd Dylanwadu ar bobl i ddod i ddeall y gwahaniaeth rhwng dylanwad a phŵer. Penderfynodd y myfyrwyr mai'r bobl a oedd â phŵer drostynt fel rheol oedd y rhai oedd yn agos atynt ac a oedd yn dweud wrthynt yn uniongyrchol beth i'w wneud, e.e. rhieni. Ar y llaw arall, roedd sêr pop a gwleidyddion yn dylanwadu arnynt trwy'r cyfryngau. Roeddent o'r farn bod y bobl hyn yn tueddu i fod â llai o gyswllt â'u bywydau pob dydd. Roeddent hefyd yn sylweddoli bod ganddyn nhw hefyd bŵer dros wleidyddion trwy bleidleisio, a thros gwmnïau mawr sy'n dibynnu arnynt i brynu pethau.



Addasiad o 'Dylanwadu ar bobl' Grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr

Mae Byd-Weithio! wedi gwneud i lawer o'r athrawon sylweddoli pa sgiliau oedd gan y disgyblion eisoes, a pha wybodaeth flaenorol. Un o athrawon grŵp Llundain

Cam 2 Mae cam dau yn cynhyrchu pynciau sy'n cael effaith ar fywydau'r myfyrwyr, yn dadansoddi pa mor bwysig a pha mor berthnasol yw pob pwnc yn lleol ac yn fyd-eang, ac yn rhoi blaenoriaeth i un pwnc y mae'r myfyrwyr yn teimlo bod modd iddyn nhw wneud y gwahaniaeth mwyaf pendant iddo.

i ddewis pwnc

Nod cam 2 yw:

- galluogi myfyrwyr i daflu syniadau a thrafod pynciau, eu dosbarthu a'u cwestiynu er mwyn cael consensws o fewn y grŵp ynglŷn â pha un y dylid gweithredu arno.

- datblygu ac ehangu sgiliau ymholi – gofyn cwestiynau a dynodi pynciau; dewis a dethol gwybodaeth a rhoi trefn arni er mwyn adeiladu dadleuon; cyfathrebu – cyfrannu at drafodaethau archwiliol mewn grŵp ac yn y dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon; mynegi, cyfiawnhau ac amddiffyn barn bersonol am bwnc ar lafar ac yn ysgrifenedig; cyfranogi – cyd-drafod, penderfynu a phleidleisio ar bwnc.

Gweithgareddau i ddewis o'u plith

Ffotograffau sbarduno 24

Beth sy'n gwneud i chi golli eich limpyn? 24

Pleidleisio â'ch traed 24

Eich dewis chi 25

Dosbarthu pynciau 25

Cadwyn pam-pam-pam 25

Cwestiynau lleol byd-eang 25

Ehanga dy fyd 26

Graddio pynciau 27

Graddio parau 27

Rhesymau dros y pwnc 27

1 Ffotograffau sbarduno

Gweithgaredd i gynhyrchu pynciau i'w trafod sy'n effeithio ar ein bywydau.

O amryfal ffynonellau, e.e. papurau newydd, casglwch ffotograffau o ddigwyddiadau amserol lleol a byd-eang, a'u trafod. Dewiswch un sy'n cynrychioli'r pwnc mwyaf diddorol.

Rhowch y ffotograff a ddewiswyd ar ganol y daflen Ffotograffau sbarduno (Taflen Waith 2a), ac ateb y cwestiynau.

Rhestrwch y pynciau i gyd ar y bwrdd du. Pleidleisiwch dros y pynciau yr ydych chi o'r farn y byddai'r dosbarth yn medru cydweithio i'w newid. Pleidleisiwch â dotiau neu farcwyr gludiog. Mae pawb yn cael pum dot neu farciwr yr un, a gallant naill ai roi pob un ar un pwnc, neu ddau ar un pwnc a thri ar un arall. Yna gellir dadansoddi'r pynciau sydd â'r mwyaf o ddotiau cyn dewis un i weithredu arno.

2 Beth sy'n gwneud i chi golli eich limpyn?

Gweithgaredd i gynhyrchu pynciau i'w trafod sy'n effeithio ar ein bywydau.

Tynnwch amlinell o berson ar ddarn o bapur siart. Ysgrifennwch bynciau o amgylch y corff y mae'r myfyrwyr yn teimlo'n gryf yn eu cylch – materion llosg sy'n gwneud iddynt 'golli eu limpyn'. Meddyliwch am bynciau yn yr ysgol, yr ardal leol, y wlad a'r byd.

Darllenwch yr holl sylwadau a'u dosbarthu yn grwpiau o rai tebyg i'w gilydd.

Ychwanegwch beth fyddai modd ei wneud i wella'r sefyllfa wrth ymyl pob pwnc. Yna gellir dadansoddi'r materion mwyaf poblogaidd cyn dewis un i weithredu arno.

3 Pleidleisio â'ch traed

Gweithgaredd i gynhyrchu pynciau i'w trafod sy'n effeithio ar ein bywydau.

Gwrandewch ar y cwestiynau canlynol ac ymateb iddynt: Beth sy'n peri'r pryder mwyaf i chi am y byd o'ch cwmpas? Pa bethau yn y byd y byddech chi'n hoffi eu newid fwyaf? Gall y rhain fod yn bethau am yr ysgol, y gymuned leol, y wlad neu'r byd.

Rhowch ddarnau o bapur, ag un pwnc wedi ei ysgrifennu ar bob un, i fyny o amgylch yr ystafell. Gallwch aildrefnu pynciau tebyg a chreu un pwnc ohonynt.

Gwrandewch ar y cwestiwn canlynol a symud i'r rhan o'r ystafell lle mae'r pwnc yn cael ei arddangos: Pa bwnc yw'r pwysicaf yn eich barn chi, a pham? Gwrandewch ar ail gwestiwn, a phenderfynu a ddylech symud eto: Pa bwnc yn eich barn chi y byddech chi fel grŵp yn gallu ei wella? Pam?

Meddyliwch am y dewisiadau a wnaed. Gallech 'werthu' eich rhesymau am ddewis pwnc i bobl eraill yn yr ystafell gan eu hannog i symud. Yna gellir dadansoddi'r pynciau mwyaf poblogaidd yn yr ystafell cyn dewis un i weithredu arno.

4 Eich dewis chi

Gweithgaredd ar gyfer pleidleisio ar bynciau a ddewiswyd eisoes.

Trafodwch y pynciau ar y daflen Eich dewis chi (Taflen Waith 2b). Ychwanegwch unrhyw bynciau pwysig eraill yn y ddau flwch ar y gwaelod.

Pleidleisiwch ar y pynciau gan ddefnyddio un o'r technegau a amlinellir yn y gweithgareddau Ffotograffau sbarduno a Pleidleisio â'ch traed uchod. Yna gellir dadansoddi'r pynciau mwyaf poblogaidd cyn dewis un i weithredu arno.

5 Dosbarthu pynciau

Gweithgaredd ar gyfer dadansoddi pynciau cyn dewis un i weithredu arno.

Ar y daflen Dosbarthu pynciau (Taflen Waith 2c), penderfynwch ym mha ddosbarth i roi pynciau. Gellir gosod un pwnc mewn amryw o ddosbarthiadau.

Llenwch y blychau pynciau o dan y cylch, gan ddisgrifio pob un yng nghyd-destun y dosbarth y mae ynddo. Ystyriwch y cysylltiadau rhwng dosbarthiadau, e.e. A oes modd i bwnc fod yn lleol heb fod yn fyd-eang? A yw hawliau cyfartal yn rhan o bob pwnc?

6 Cadwyn pam-pam-pam

Gweithgaredd ar gyfer dadansoddi pynciau cyn dewis un i weithredu arno.

Defnyddiwch y Gadwyn pam-pam-pam (Taflen Waith 2ch) i ystyried y rhesymau dros wahanol bynciau. Er enghraifft, gallai 'diffyg mesurau diogelwch' a 'plant yn eu harddegau heb ddim i'w wneud' fod yn ddau reswm dros fandaliaeth. Mae'r saethau'n dynodi cyfeiriad y canlyniadau, felly os nad oes gan blant yn eu harddegau ddim i'w wneud yna'r canlyniad yw bod fandaliaeth yn cynyddu.

Edrychwch ar bob blwch a gofynnwch, A yw hi'n deg bod hyn yn digwydd? a Beth allwn ni ei wneud i newid pethau? Ysgrifennwch yr ymatebion mewn lliw gwahanol ger pob blwch, a'u cyflwyno. Mae modd gwneud y gweithgaredd hwn hefyd gan ddefnyddio papur siart a nodiadau 'post-it'.

7 Cwestiynau lleol byd-eang

Gweithgaredd ar gyfer dadansoddi pynciau cyn dewis un i weithredu arno.

Trafodwch y cwestiynau ar y daflen Cwestiynau lleol byd-eang (Taflen Waith 2d).

Ysgrifennwch eich ymatebion i bob cwestiwn neu dynnu llun ohonynt ar y daflen gan adrodd yn ôl wrth y dosbarth.

8 Ehanga dy fyd

Gweithgaredd ar gyfer dadansoddi pynciau cyn dewis un i weithredu arno.

Tynnwch amlinell o glôb neu fap o'r byd a'i roi ar y wal neu'r llawr. Ysgrifennwch y pynciau pwysig sy'n effeithio ar fywydau'r myfyrwyr uwchben y byd. Gellid eu hysgrifennu ar nodiadau 'post-it'.

Ystyriwch bob pwnc yn ei dro a meddwl sut y gallai effeithio ar bobl mewn rhannau eraill o'r byd. Tynnwch linell trwy ganol y byd ac ysgrifennu ymatebion ar y pen.

A yw'r pwnc yn effeithio ar bobl mewn rhannau eraill o'r byd? Sut?

A yw'n effeithio ar bobl mewn ffyrdd tebyg, neu mewn ffyrdd gwahanol? Sut?

A oes pynciau cysylltiedig?

Sut gallech chi ddarganfod rhagor?



9 Graddio pynciau yn ôl eu trefn

Gweithgaredd ar gyfer dewis pwnc i weithredu arno.

Ysgrifennwch y pynciau yn y golofn ar yr ochr chwith yn y matrics Graddio pynciau (Taflen Waith 2dd), gan raddio pob un o 1 i 5 gan ddefnyddio'r meini prawf. Ychwanegwch feini prawf at y golofn olaf.

Adiwch y rhifau a phenderfynwch a yw'n bosib gwneud y gwahaniaeth mwyaf pendant i'r pwnc sydd â'r sgôr uchaf. Os nad yw'n bosib, ail-wnewch y gweithgaredd gan ddefnyddio gwahanol feini prawf.

10 Graddio parau

Gweithgaredd ar gyfer dewis pwnc i weithredu arno.

Tynnwch grid, ac ysgrifennwch bynciau ar y ddwy echelin. Gweler yr enghraifft.

Byd-Weithio! – Graddio parau

Pwnc	Prinder canolfannau ieuenctid	Hiliaeth	Bwlio	Perygl terfysgaeth
Prinder canolfannau ieuenctid	X	*Hiliaeth*	*Bwlio*	*Perygl terfysgaeth*
Hiliaeth	*Hiliaeth*	X	*Bwlio*	*Perygl terfysgaeth*
Bwlio	*Bwlio*	*Bwlio*	x	*Bwlio*
Perygl terfysgaeth	*Terfysgaeth*	*Terfysgaeth*	*Bwlio*	x

Gweithiwch drwy'r colofnau a'r rhesi ar gyfer pob pâr o bynciau, gan benderfynu pa un yw'r pwysicaf. Er enghraifft, ym mlwch un gofynnir i'r myfyrwyr benderfynu pa fater sydd bwysicaf iddyn nhw: 'Prinder canolfannau ieuenctid' neu 'Bwlio'. Yn yr enghraifft hon 'Bwlio' yw'r pwysicaf o'r cyfan am mai hwnnw yw'r pwnc a gofnodwyd amlaf.

11 Rhesymau dros y pwnc

Gweithgaredd ar gyfer crynhoi rhesymau dros ddewis pwnc.

Defnyddiwch y templed Rhesymau dros y pwnc (Taflen Waith 2e) i gyflwyno rhesymau dros ddewis y pwnc i weithredu arno. Defnyddiwch hyn yn sail i gyflwyniad llafar neu ysgrifenedig.

Cam 2

Mae tair prif ffordd o gynhyrchu pynciau:
1. y myfyrwyr yn cynhyrchu eu pynciau eu hunain gan ddefnyddio Ffotograffau sbarduno, Beth sy'n gwneud i chi golli eich limpyn, neu Pleidleisio â'ch traed
2. y myfyrwyr yn dewis o amrywiaeth o bynciau a gynigir iddynt gan ddefnyddio Eich dewis chi neu addasiad ohono
3. yr athro neu'r athrawes yn dewis y pwnc.

Os mai'r myfyrwyr sy'n cynhyrchu eu pynciau eu hunain, y penderfyniad nesaf yw a ddylid canolbwyntio ar un pwnc fel dosbarth, neu a yw nifer o grwpiau llai yn mynd i ganolbwyntio ar nifer o wahanol bynciau. Os yw'r dosbarth yn dewis un pwnc, ni ddylai'r myfyrwyr hynny y gwrthodwyd eu syniadau ddigalonni, oherwydd gellir ystyried eu syniadau nhw yn ddiweddarach. Wedi i bynciau ddod i'r fei, gellir eu dadansoddi wedyn a'u dethol gan ddefnyddio'r amryfal weithgareddau yng ngham dau.



Grŵp Llundain

Roedd safon y cyfathrebu llafar yn y gwaith a gynhyrchwyd yn uchel. Roedd y myfyrwyr yn mwynhau bod yn gyfrifol am ddewis pwnc.Un o athrawon grŵp Llundain

Mae'n ennyn mwy o ddiddordeb ymhlith y plant os cân NHW ddewis y pwnc. Mae'n eu gwneud yn fwy ymwybodol o'u rhan NHW mewn digwyddiadau lleol, cenedlaethol a byd-eang.
HMS i athrawon ar ABCh yng Nghaerdydd

Grŵp Gogledd Cymru

Allai'r disgyblion llai galluog ddim meddwl am eu pynciau eu hunain. Roeddent yn canolbwyntio'n llawer gwell pan ddosbarthwyd y daflen Eich dewis chi.
Un o athrawon grŵp Llundain



Grŵp Llundain

Allai'r dosbarth ddim cytuno ar un pwnc, felly erbyn hyn mae yna bedwar grŵp a phedwar pwnc! Un o athrawon grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr

Cam 2

Canolbwyntiodd ambell ysgol ar ‘pwy oedd yn tynnu ein llinynnau’ yn y gweithgareddau gwneud penderfyniadau – fel ffordd o edrych ar y dylanwadau a fu ar y penderfyniadau a wnaethant. Edrychodd un ysgol ar y rhesymau pam yr oedd cam-drin plant yn bwnc llosg – a chwestiynu rôl y cyfryngau yn y dylanwadu ar eu penderfyniadau.

Cyfraniad ardderchog i sgiliau allweddol. Un o athrawon grŵp De Cymru



Grŵp Llundain

Mae myfyrwyr yn tueddu i weld pynciau mewn ffordd leol iawn – mae angen eu hymestyn i feddwl am bynciau mewn ffordd fwy byd-eang. Un o athrawon grŵp Llundain

Grŵp De Cymru



Sylweddolon nhw fod llawer o'r pynciau y maen nhw'n eu hystyried yn bwysig hefyd yn bynciau cenedlaethol a byd-eang. Er enghraifft, roedd trosedd yn fater o bryder mawr i'r myfyrwyr. Un o athrawon grŵp Llundain

Cam 3 Mae cam tri yn ymchwilio'n fwy trylwyr i'r pwnc a ddewiswyd. Bydd ar y myfyrwyr angen gwybodaeth gefndirol fanwl ar agweddau lleol a byd-eang y pwnc er mwyn gwneud penderfyniadau deallus ynghylch beth y gellir ei wneud i wella'r sefyllfa ac i wneud gwahaniaeth pendant.

i chwilio am ragor o wybodaeth

Nod cam 3 yw:

- galluogi myfyrwyr i ymchwilio i brif nodweddion y pwnc, beth sy'n ei achosi, ei effeithiau a ffyrdd posib o'i ddatrys.

- datblygu ac ehangu sgiliau ymchwilio – ystyried ac ymchwilio i bwnc â sensitifrwydd a thrwy edrych arno'n wrthrychol; dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth o wahanol ffynonellau, a llunio casgliadau a'u cyfiawnhau; cyfathrebu – cyfrannu at drafodaethau archwiliol mewn grŵp ac yn y dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon; cyfranogi – gwerthfawrogi a mynegi gwerthoedd ac agweddau pobl eraill tuag at bynciau.

Gweithgareddau i ddewis o'u plith

Coeden bynciau 34

I bedwar ban 34

Map meddwl 34

Chwilio'r Rhyngrwyd 35

Drama stopia – meddylia 35

Dadlau ynghylch y pwnc 35

Cyflwyno'r canfyddiadau 35

1 Coeden bynciau

Gweithgaredd ar gyfer archwilio achosion ac effeithiau pwnc, a ffyrdd o'i ddatrys.

Tynnwch amlinell o goeden. Labelwch y boncyff â'r pwnc a ddewiswyd; y gwreiddiau ag achosion y pwnc, y canghennau ag effeithiau'r pwnc, a'r ffrwyth â ffyrdd posib o ddatrys y pwnc. Gellir gwneud hyn naill ai cyn gwneud unrhyw ymchwilio fel ffordd o ddangos beth mae myfyrwyr yn ei wybod eisoes, neu ar ôl gorffen ymchwilio er mwyn cyflwyno'r canfyddiadau.

Trafodwch y cwestiynau canlynol: Pa mor ddefnyddiol yw'r goeden er mwyn deall y pwnc? Pa ran o'r goeden yw'r rhan fwyaf defnyddiol? A oes unrhyw ffyrdd eraill o gyflwyno'r pwnc? A yw rhai ffyrdd o ddatrys y pwnc yn bwysicach nag eraill?

Gellir defnyddio coed mewn amryfal ffyrdd. Gweler y Goeden Weithredu a'r Goeden Gynllunio yng ngham pedwar. Hefyd gellir cynrychioli cefndir y pwnc drwy dynnu llun afon. Er enghraifft, gall nentydd bychain gynrychioli'r achosion, a gall llifogydd neu raeadrau gynrychioli digwyddiadau pwysig.

2 I bedwar ban…

Gweithgaredd ar gyfer archwilio'r agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar bwnc.

Ysgrifennwch y pwnc yng nghanol y daflen I bedwar ban… (Taflen Waith 3a), a thrafodwch a rhowch ymateb i'r cwestiynau o'i amgylch. Gellir gwneud hyn cyn ymchwilio i'r pwnc a/neu ar ôl gwneud hynny.

Cymharwch eich ymatebion chi ag ymatebion pobl eraill yn y dosbarth, gan ychwanegu unrhyw wybodaeth arwyddocaol.

Seilir y gweithgaredd hwn ar y Compass rose a gynhyrchwyd gan Ganolfan Addysg Ddatblygu Birmingham.

3 Map meddwl

Gweithgaredd er mwyn darganfod beth mae'r myfyrwyr yn ei wybod a beth mae angen iddynt ei wybod.

Cyflwynwch y pwnc a ddewiswyd fel map meddwl. Ysgrifennwch y pwnc yng nghanol y dudalen, a thaflu geiriau a ddaw i'ch meddwl a'u rhoi o gwmpas y pwnc. Gwnewch gysylltiadau rhwng y geiriau.



Ysgrifennwch nodiadau ar y map i ddangos pa wybodaeth sydd ei hangen. Mae'n bosib defnyddio'r rhain yn sylfaen i'r ymchwil.

Defnyddiwch y Matrics ymchwil (Taflen waith 3b) i drefnu'r ymchwil. Ysgrifennwch eich cynigion mewn pensil neu ar nodiadau 'post-it' fel y gellir eu newid. Gellir defnyddio'r matrics fel cyfeirbwynt sy'n datblygu o hyd, gan ychwanegu ffynonellau a gwybodaeth newydd wrth i'r broses fynd yn ei blaen.

Trafodwch y cwestiynau canlynol: A yw'r wybodaeth a gafwyd o'r ymchwil yn ddefnyddiol? A yw'n gywir? Pwy a ysgrifennodd y llyfr, neu pwy yw perchennog y wefan? A ydych chi'n meddwl bod y wybodaeth yn unochrog neu'n rhagfarnllyd?

4 Chwilio'r Rhyngrwyd

Gweithgaredd ar gyfer ymchwilio i wefannau ar y Rhyngrwyd.

Defnyddiwch y daflen Chwilio'r Rhyngrwyd (Taflen Waith 3c) i wneud ymchwil i'r pwnc a ddewiswyd.

Meddyliwch am y canlynol:

A yw'r wybodaeth ar bob gwefan yr un fath?

A oes gwahaniaethau? Pam hynny, tybed?

Pwy yw perchennog y wefan?

A oes tystiolaeth o ragfarn?

A ydych wedi pori yn nhudalennau'r cysylltiadau?

A allwch chi feddwl am wefan a fyddai'n rhoi golwg wahanol ichi ar y byd?

5 Drama stopia – meddylia

Gweithgaredd ar gyfer deall beth yw agweddau pobl at y pwnc.

Datblygwch ddrama chwarae rôl ar sefyllfa nodweddiadol yn ymwneud â'r pwnc a ddewiswyd, a'i pherfformio.

Mae'r gynulleidfa'n gweiddi 'Stopia a meddylia Sara' (cymeriad sy'n chwarae rôl), ac mae Sara'n cymryd arni rôl y cymeriad ac yn dweud am beth roedd hi'n meddwl. Mae'n bosib rhoi cynnig ar wahanol sefyllfaoedd a'u hactio.

6 Dadlau ynghylch y pwnc

Gweithgaredd ar gyfer ymchwilio i ddadleuon o blaid ac yn erbyn y pwnc.

Ymchwiliwch am wybodaeth ar gyfer dadleuon yn cefnogi'r pwnc, a dadleuon sy'n gwrthwynebu'r pwnc. Ysgrifennwch y wybodaeth yn y blychau ar y templed Dadlau ynghylch y pwnc (Taflen Waith 3ch). Ar ôl pwyso a mesur y dadleuon, ysgrifennwch gasgliad yn y blwch ar waelod y dudalen.

7 Cyflwyno'r canfyddiadau

Gweithgaredd ar gyfer cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil.

Cyflwynwch ganfyddiadau'r ymchwil a'r ffynonellau gwybodaeth ar y templed Cyflwyno'r canfyddiadau (Taflen Waith 3d). Defnyddiwch hyn fel sylfaen ar gyfer cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig.

Cysylltu'r lleol a'r byd-eang

Tasg anodd yw cyflwyno dimensiwn byd-eang pynciau heb ymddangos fel pe baech yn ceisio gosod agenda. Ceisiwch ochel rhag defnyddio datganiadau fel 'Rydym ni'n credu bod hyn yn bwysig' gan na fyddai'r symbyliad wedi dod oddi wrth y myfyrwyr. Yn lle hynny, wrth gyflwyno dimensiwn byd-eang mae angen bod yn fwy creadigol gan ddefnyddio syniadau fel y l bedwar ban ar gyfer gwersi. Mae'r rhain yn helpu'r myfyrwyr i ddod o hyd i gysylltiadau lleol/byd-eang drostynt eu hunain. Mae ffyrdd eraill o gyflwyno'r dimensiwn byd-eang yn cynnwys:

- cael hyd i enghreifftiau o sut mae myfyrwyr yn ddinasyddion, ar lefel y dosbarth, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- archwilio'r manteision a'r anfanteision o fod yn ddinesydd ar wahanol lefelau
- ystyried a yw gweithredu'n lleol yn gallu cael effaith yn fyd-eang, ac a yw gweithredu byd-eang yn gallu cael effaith yn lleol.

Naid fawr oedd hon, nid cam! Maen nhw'n llawn brwdfrydedd, yn danbaid ac yn ysu am gael gweithredu. Roedd dadansoddi'r pwnc i weld yr achosion a'r atebion posibl yn rhywbeth nerthol iawn iddyn nhw. Byddaf yn defnyddio'r goeden yma eto! Un o athrawon grŵp Llundain





Grŵp Llundain

Harry Cohen
House of Commons
London
SW1A 0AA

19 November 2002

Dear Sir,

RE: Youth Crime

In our Citizenship lessons, we have undertaken a project where we are researching Youth crime. We have recently spoken to PC Senior who has given us some information. We would appreciate if you could kindly add to this.

As you may be aware youth crime in Leytonstone and Leyton is constantly on the increase. There are many victims, however more and more youths are becoming offenders.

My purpose of writing is to find out what our council is doing to try and prevent these crimes. Me and my fellow pupils at Tom Hood School feel very strongly about this issue as many of us have been victims of youth crime at some point in our lives.

Dani Rose, a member of staff at Tom Hood School has been a victim of youth crime several times. On one occasion she had her mobile phone and purse snatched from her handbag. These valuable possessions were never recovered. This is just one example of youth crime taking place in our community everyday. Many of these crimes also involve violence and so the victims not only suffer physically but are also tormented mentally.

I would appreciate any information you can offer me about what is being done to make our community a safer place.

Yours Sincerely

Pupil at Tom Hood School

Grŵp Llundain

Yn y cam cyntaf, roedd y disgyblion yn ei chael yn haws hoelio sylw ar bynciau personol a lleol, ond erbyn y trydydd cam roedden nhw'n meddwl yn fwy byd-eang. Digwyddodd hyn yn naturiol, a fu dim rhaid imi ysgogi cymaint arnyn nhw ag roeddwn i'n disgwyl gorfod ei wneud. Un o athrawon grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr

Grŵp Llundain



Cam 3

Ymdrin â phynciau dadleuol

Gall archwilio pynciau dadleuol wneud dysgu ac addysgu yn ystyrlon ac ysgogol. Mae'n cynnig cyfleoedd i edrych ar y byd mewn ffordd wahanol drwy archwilio barn y mwyafrif a tharddiad y farn honno, a chanolbwyntio ar safbwyntiau sydd heb lais cryf neu sydd heb eu hystyried o'r blaen, a chwestiynu gwerthoedd a chredoau sy'n cael eu cymryd yn ganiataol.

Wrth weithio â phynciau dadleuol mae angen i'r holl staff fod yn gyson yn eu hymdriniaeth ohonynt. Mae'n werth nodi'r pwyntiau canlynol:

- Ystyriwch pa bynciau, os oes rhai, sy'n waharddedig cyn dechrau'r broses. Gellir defnyddio polisïau'r ysgol ar gyfle cyfartal yn fframwaith cyfeirio ar gyfer gwneud y penderfyniad hwn.
- Defnyddiwch bolisïau diogelu plant a chyfrinachedd yr ysgol os daw gwybodaeth i law ynghylch ymddygiad sy'n debygol o achosi niwed.
- Anogwch fyfyrwyr i archwilio amrywiaeth o wybodaeth gefndirol a safbwyntiau ar y pwnc. Cofiwch nad yw'n rhaid i drafodaethau arwain at gasgliad, na chonsensws o fewn y dosbarth.

Gwybodaeth gefndir

Mae cael gwybodaeth gefndir fanwl ac amrywiol am bwnc yn hanfodol. Mae'r broses o ymchwilio a dadansoddi gwybodaeth o amrywiol ffynonellau yn helpu myfyrwyr i werthfawrogi natur amlochrog a chymhleth y pynciau. Mae ymwneud â phynciau yn fwy trylwyr hefyd yn helpu myfyrwyr i deimlo'n fwy hyderus, ac yn gallu eu harwain i ehangu a herio eu syniadau a'u barn eu hunain a rhai pobl eraill.

Grŵp Gogledd Cymru

Bu'n rhaid ymchwilio i lawer o wybodaeth gan fod rhyfel yn fater cymhleth. Grŵp Llundain



ROEDDWN I'N HOFFI'R GWERSI HYN OHERWYDD DOEDDEN NI DDIM YN YSGRIFENNU TRWY'R AMSER AC MI GAWSON NI GYFLE I FYNEGI EIN BARN. Myfyriwr grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr

Achosion a datrysiadau
Mae llawer o'r syniadau ar gyfer gwersi yn adran tri yn archwilio achosion a datrysiadau pwnc. Mae'n bwysig nodi nad mater o ddwyn y broblem i gof a chynnig ateb syml neu ddifeddwl yw hyn, e.e. Cawsom ladrad ar ein stâd, felly dylem gael mwy o heddlu – neu – Cawn ein taro gan ymosodiad terfysgol, felly dylem gael gwared ar y troseddwyr a phob un o'u dilynwyr. Mae angen ymyrraeth fel 'arhoswch am eiliad' er mwyn ystyried pob rhan o'r pwnc yn drylwyr. Mae'n bosibl y bydd canolbwyntio ar beth y gall y myfyrwyr ei wneud ynglŷn â'r materion a godant a sut y gallant ddylanwadu ar eraill yn arwain at ymatebion mwy meddylgar.

Gwaith adeiladu tîm gwirioneddol – gwaith coeden creadigol – da iawn. Cyffro creadigol yn y dosbarth – allwch chi ddim rhoi bys arno, ond gwyddoch fod gwersi'n rhai da pan mae yno. Un o athrawon grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr


I also learnt that hundreds of thousands of lives could be saved if the governments fought together.
I found this information quite strange as lives were being lost for no reason.
Another thing I learnt was that more than 70% of the world's cases will occur in the countries with less than 5% of the world's cancer resources.
I discovered this from http://news.bbc.co.uk/
However, the most interesting thing I learnt was about it.

Grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr



Coeden yn edrych ar dlodi a digartrefedd
Grŵp De Cymru

Cam 4 Mae cam pedwar yn archwilio syniadau ynglŷn â ffyrdd posibl o weithredu, yn ymchwilio i'r effeithiau lleol a byd-eang, yn penderfynu pa syniad yw'r un gorau, ac yn cynllunio'r ffordd orau o'i roi ar waith.

i gynllunio

Nod cam 4 yw:

- galluogi myfyrwyr i ystyried pa mor ymarferol yw'r ffyrdd posib o weithredu a chytuno ar un ohonynt.
- helpu'r myfyrwyr i wneud cynlluniau manwl o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud, eu neges, cynulleidfa darged, a phwy sy'n gwneud beth.
- datblygu ac ehangu sgiliau ymholi – coladu gwybodaeth er mwyn asesu syniadau a dod i gasgliadau; cyfathrebu – cyfrannu at drafodaethau archwiliol mewn grŵp ac yn y dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon; cyfranogi – cyd-drafod, penderfynu a chynllunio ar gyfer gweithredu.

Gweithgareddau i ddewis o'u plith

Beth rydyn ni ei eisiau? 42
Brics a morthwylion 42
Coeden weithredu 43
Coesau pry copyn 43
Chwarae cardiau gweithredu 44
Pa weithred? 44
Matrics dylanwad 44
Gofyn barn 44
Ein gweithred ni 45
Cyfathrebu 45
Afon amser 45
Coeden gynllunio 45
Cynllun gweithredu 46

1 Beth rydyn ni ei eisiau?

Gweithgaredd ar gyfer ystyried gweithredu posibl.

Trafodwch y llinell-amser isod, a chwblhau copi ohoni gan ddefnyddio geiriau a/neu luniau. Ystyriwch y sefyllfa yn lleol ac yn fyd-eang.

Y sefyllfa ar hyn o bryd yw:	→	**Sut sefyllfa hoffen ni ei chael?**	→	**Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud?**

Trafodwch a yw'r weithred sydd ei hangen yn dilyn y CAMRE gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

C Cyraeddadwy – mae'n bosib

A Amser penodol – mae'n bosib yn yr amser sydd ar gael, e.e. un tymor

M Mesuradwy – gellir mesur unrhyw newid

R Realistig – gall ddigwydd beth bynnag fo'r cyfyngiadau o ran arian neu bobl

E Eglur – gellir ei diffinio mewn modd eglur a phenodol

Os nad yw'r weithred yn dilyn y CAMRE, yna gallwch ei hailwampio trwy ganolbwyntio ar un ran o'r weithred, yn hytrach nag ar amrywiol newidiadau.

2 Brics a morthwylion

Gweithgaredd ar gyfer archwilio gweithredoedd posib.

Dychmygwch sut le fyddai byd delfrydol – byd lle nad yw'r pwnc a ddewiswyd yn broblem. Tynnwch luniau neu fapiau, neu actiwch allan sut fath o le yw'r byd heddiw o'i gymharu â chymuned ddelfrydol.

Tynnwch lun wal frics. Labelwch bob bricsen â phethau sy'n eich rhwystro rhag gwireddu'r weledigaeth o gael byd delfrydol, e.e. dydy pobl dlawd ddim yn cael pris teg am eu nwyddau os mai masnach deg yw'r pwnc. Gwnewch forthwylion allan o bapur er mwyn bwrw'r briciau i lawr, ac ysgrifennwch arnynt weithredoedd a fyddai'n gwella'r sefyllfa, e.e. ceisio gwerthu nwyddau masnach deg yng nghantîn yr ysgol.



3 Coeden weithredu

Gweithgaredd ar gyfer archwilio gweithredoedd posibl.

Gosodwch siâp coeden allan yng nghanol y llawr. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio sawl dalen o bapur siart-troi wedi'u gludio gyda'i gilydd a thynnu llun siâp coeden, neu drwy ddefnyddio pren neu ddefnyddiau eraill.

Ysgrifennwch neu gwnewch symbol ar gyfer y pwnc, a'i ychwanegu at foncyff y goeden. Ysgrifennwch neu gwnewch symbolau i gynrychioli gweithredoedd posib a'u dangos fel ffrwyth; symbolau ar gyfer ffyrdd o gyflawni'r datrysiadau a'u dangos fel canghennau; a symbolau ar gyfer yr adnoddau sydd eu hangen a'u dangos fel gwreiddiau, e.e. sgiliau, defnyddiau, cysylltiadau.

Defnyddiwch y goeden yn sylfaen ar gyfer trafod y cwestiynau canlynol: Beth yw effeithiau lleol a byd-eang pob gweithred? Pŵer pwy sydd ei angen arnom i'n helpu ni i wneud y newid? Pwy all ddylanwadu arnyn nhw? Beth allwn ni ei wneud? Gellir ychwanegu'r wybodaeth yma at y goeden, neu gellir ei chyflwyno fel siart rhediad.

4 Coesau pry copyn

Gweithgaredd ar gyfer penderfynu pa weithred i'w dewis.

Ysgrifennwch weithred yng nghorff pry copyn, a rhowch goesau iddo i gynrychioli'r canlyniadau. Gwnewch hyn sawl gwaith â gwahanol weithredoedd ac asesu pa un yw'r fwyaf ymarferol. Mae'r syniad hwn yn gweithio hefyd fel gweithgaredd drama.



5 Chwarae cardiau gweithredu

Gweithgaredd ar gyfer penderfynu ar weithred.



Torrwch y cardiau gweithredu ar y daflen Chwarae cardiau gweithredu allan (Taflen Waith 4a), a'u trafod. Gallwch lunio eich cardiau eich hun yn lle'r rhain.

Trefnwch y naw cerdyn ar ffurf diemwnt: y gweithredoedd unigol ar ben a gwaelod y diemwnt yw'r rhai sy'n cael eu ffafrio fwyaf a lleiaf; y ddwy weithred uwchben ac o dan y rhain yw'r nesaf o ran trefn; mae'r tair gweithred ar draws y canol yn ganolig eu pwysigrwydd ac nid oes fawr i wahaniaethu rhyngddynt.

Ystyriwch pa weithredoedd fyddai'n cael yr effaith fwyaf yn yr ysgol, yr ardal leol, y wlad a'r byd. Pa weithredoedd yw'r rhai mwyaf ymarferol? Dilynwch y canllawiau:

- Anelu'n uchel. Dechrau'n isel.
- Gosodwch nodau realistig.
- Byddwch yn barod i weithio'n galed.
- Mae talentau penodol gan bob aelod yn eich grŵp – defnyddiwch nhw.
- Ceisiwch gael mwy o bobl i gyfranogi.

6 Pa weithred?

Gweithgaredd ar gyfer penderfynu ar weithred.

Rhestrwch weithredoedd posib ar y matrics Pa weithred? (Taflen Waith 4b), ac ystyriwch bob un gan ddefnyddio'r cwestiynau ar yr echelin-X, ac un ychwanegol.

Ar ôl cwblhau'r matrics, dewiswch pa weithred sydd fwyaf ymarferol o ystyried diddordebau'r dosbarth, ac unrhyw gyfyngiadau.

7 Matrics dylanwad

Gweithgaredd ar gyfer penderfynu ar weithred.

Rhestrwch y gweithredoedd posib ar gyfer y pwnc a ddewiswyd, ac aseswch eu heffaith gan ddefnyddio'r Matrics dylanwad (Taflen Waith 4c).

Mae'n debyg y byddai'n well gadael llonydd i'r gweithredoedd hynny sy'n cael eu rhoi yn y gornel dde ar waelod y matrics.

8 Gofyn barn

Gweithgaredd ar gyfer holi barn pobl eraill ynghylch pa weithred i'w dewis.

Meddyliwch am ffyrdd o holi barn pobl ynghylch pa weithred i'w dewis, e.e. holiadur, arolwg, cyfweliad. Gallai'r cwestiynau gynnwys: Beth yw pwyntiau da a phwyntiau drwg y weithred? Yn eich barn chi, beth ddylai gael ei wneud? A fyddech chi'n barod i gymryd rhan? Sut bydd yn effeithio ar bobl yn lleol ac yn fyd-eang?

Un syniad ar gyfer canfod beth mae pobl eraill ei eisiau yw dangos ffotograff o rywbeth yn ymwneud â'r pwnc, a gofyn cwestiynau iddynt amdano, e.e. A ydych chi'n adnabod yr adeilad yma? A wyddoch chi beth sy'n digwydd yno? A ydych chi wedi bod yno erioed? Beth hoffech chi ei newid amdano? Beth hoffech chi ei weld yn digwydd yno? Cofnodwch y syniadau ar nodiadau 'post-it' o gwmpas y ffotograff.

9 Ein gweithred ni

Gweithgaredd ar gyfer cyflwyno rhesymau dros ddewis gweithred.

Defnyddiwch dempled Ein gweithred ni (Taflen Waith 4ch) i gyflwyno rhesymau dros ddewis gweithred. Ystyriwch effeithiau lleol a byd-eang y weithred. Defnyddiwch y ffrâm yn sylfaen ar gyfer cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig.

10 Cyfathrebu

Gweithgaredd ar gyfer penderfynu pa fath o gyfathrebu i'w ddefnyddio.

Defnyddiwch y templed Cyfathrebu (Taflen Waith 4d) i ystyried pa fath o gyfathrebu sydd fwyaf priodol ar gyfer y weithred. Dim ond os yw'r weithred yn golygu bod angen cyfathrebu gwybodaeth am y pwnc y mae hyn yn berthnasol.

11 Afon amser

Gweithgaredd ar gyfer cynllunio'r weithred.

Gosodwch siâp afon allan yng nghanol y llawr, neu ar wal arddangos. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio nifer o ddalennau siart-troi wedi'u gludio gyda'i gilydd, a thynnu llun afon, neu ddefnyddio deunyddiau eraill.

Mae'r afon yn cynrychioli beth sydd angen ei wneud er mwyn cyflawni'r weithred, yn nhrefn amser. Mae tarddiad yr afon yn dangos y sefyllfa fel ag y mae nawr, ac mae aber yr afon yn dangos y weithred. Mae'r nentydd bychain sy'n ymuno â'r afon yn dangos y gweithgareddau hynny sydd angen eu gwneud, yn eu trefn. Gellir dangos rhwystrau posib â cherrig mawr, rhaeadrau a throbyllau, er enghraifft. Gellir ychwanegu darnau eraill at yr afon wrth i'r broses gynllunio fynd yn ei blaen.

12 Coeden gynllunio

Gweithgaredd ar gyfer cynllunio'r weithred.

Gosodwch siâp coeden allan yng nghanol y llawr. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio nifer o ddalennau siart-troi wedi'u gludio gyda'i gilydd a thynnu llun y goeden, neu drwy ddefnyddio pren neu ddefnyddiau eraill.

Ysgrifennwch neu gwnewch symbol i gynrychioli'r weithred, a'i roi ar y boncyff. Ysgrifennwch neu gwnewch symbolau i gynrychioli targedau, a'u dangos fel ffrwythau; ysgrifennwch neu gwnewch symbolau i gynrychioli'r tasgau y mae angen eu gwneud er mwyn cyrraedd y targedau – y rhain fydd y canghennau, e.e. tynnu ffotograffau, ysgrifennu llythyr, cynllunio deunyddiau; a gwnewch yr un peth i gynrychioli'r adnoddau sydd eu hangen i wneud hyn, e.e. sgiliau, deunyddiau, cysylltiadau, a dangoswch y rhain fel gwreiddiau. Gellir ychwanegu dail ag enwau pobl arnynt, i gynrychioli pwy sy'n gwneud beth.

Defnyddiwch y goeden i drafod y cwestiynau canlynol: Ym mha drefn y mae angen gwneud y tasgau? A oes modd eu gwneud i gyd? Pa dasgau yw'r pwysicaf? Pwy sy'n mynd i wneud beth?

13 Cynllun gweithredu

Gweithgaredd ar gyfer cynllunio'r weithred.

Defnyddiwch y graffeg a'r matricsau sydd wedi'u cwblhau eisoes i lenwi templed y Cynllun gweithredu (Taflen Waith 4dd). Mae angen llenwi'r blychau llwyd cyn i'r gweithredu ddechrau, a'r blychau gwyn ar ôl gweithredu. Gallai'r dangosyddion gynnwys pethau a fyddai'n digwydd petai'r weithred yn llwyddiant.



Dewis un weithred neu amryw o weithredoedd

Mae'n bosib i fyfyrwyr ddewis un weithred ar gyfer y dosbarth cyfan, neu gall grwpiau llai gynllunio a chyflawni eu gweithredoedd eu hunain. Yn yr un modd ag y dewiswyd pwnc yng ngham dau, os yw syniadau ar gyfer gweithredu yn cael eu gwrthod yn gynnar yn y broses, yna gellir cyfeirio atynt a'u defnyddio yn ddiweddarach.

Gweithredoedd yn yr ysgol a'r gymuned

Yn y rhan fwyaf o achosion efallai mai'r peth gorau i'w wneud yw cynllunio gweithred yn yr ysgol cyn cynllunio gweithred yn y gymuned. Gallai rhieni, cynhalwyr, ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol a sefydliadau Awdurdod Addysg Lleol i gyd ddod o fewn cwmpas hyn. Mantais gweithred yn yr ysgol yw ei bod hi'n haws pwyso a mesur gofynion cymuned yr ysgol a rheoli'r prosiect, yn syml oherwydd bod y myfyrwyr yn aelodau o'r gymuned honno ac yn ei hadnabod yn dda. Wedi i'r myfyrwyr adolygu ac asesu'r broses Byd-Weithio! ddwy neu dair o weithiau, efallai y bydd gweithred yn y gymuned yn haws ei rheoli ac yn fwy effeithiol.



Purpose

To gather further primary evidence on the project in order to plan for action

Resources

Visiting speaker – Mr. Mark Williams Caerphilly County Borough Council

Learning outcomes

To collate information to assess actions that could be taken on the issue.

To take part in a class debate on the issue – for and against

To negotiate, decide and plan for action

Which Action? Sheets

Camera & video

Description of activities

Plan of lesson with indications of timing, grouping of students, teacher activity, eg small group discussion, facilitating debate

11.10 – 11.15 Registration and administration

11.15 – 11.30 Teacher to introduce visiting speaker –Mr. Mark Williams– Technical Services Department at Caerphilly CBC. Mr. Williams has carried out a feasibility study on the planning application and will present his results to the class.

Mr. Williams to lead a discussion on the issue with the class.

11.30 – 12.00 Pupils to visit the disused factory site at Talbon Ltd., Plant Glas Industrial Estate and to understand the implications of siting the Waste Transfer Station here.

12.00 –12.10 Teacher and Mr. Williams to receive feedback on the actions proposed by the groups. Teacher to note actions on the board. Homework – pupils to complete the 'Which Action?' worksheet by next week.

Grŵp De Cymru



Plan of lesson with indications of timing, grouping of students, teacher activity, eg small group discussion, facilitating debate

12.10 – 12.15 Registration and administration

12.15 – 12.45 Teacher to introduce visiting speaker – Cllr. Derek Havard – Community Councillor and school governor.
Cllr. Havard to explain the structure of European, National and Local Government in relation to planning permission sought for the proposed Waste transfer station.
Cllr. Havard to explain the details relating to the siting of a Waste Transfer Station and Material Recycling Facility across the road from the school.
Cllr. Havard to lead the debate on the issue with the class.

12.45 – 13.00 Pupils to play Action Poker – Large A3 sheet with Strong / Weak and Not Sure labelled. Pupils to select card and discuss within the group whether the action is strong / weak / not sure.
Group consensus must prevail.

13.00 –13.10 Teacher and Cllr. Havard to receive feedback on the actions that the groups feel are the strongest. Teacher to note actions on the board.
Homework – to reflect on the issues discussed in the lesson and to carry out further research on suitable actions by next lesson

Grŵp Gogledd Cymru

Mae'r dull hwn yn cynnig fframwaith defnyddiol ar gyfer ymdrin â phynciau byd-eang. Rwy'n teimlo bod angen i ddisgyblion iau weld y gallant weithredu ar faterion llai, efallai o fewn eu hystafell ddosbarth neu eu hysgol. Sylw gan grŵp Ymholi ac Ymchwil Ysgolion

Fy mhrofiad i oedd bod y myfyrwyr wedi meddwl pa weithred i'w dewis yng ngham tri wrth ymchwilio i'r pwnc. Felly erbyn cyrraedd cam pedwar, roeddent gam ar y blaen. Roeddent hefyd yn tueddu i weld gweithredu fel rhywbeth i liniaru effeithiau'r pwnc yn hytrach na delio â'r gwreiddiau – felly y tro nesaf byddaf yn canolbwyntio ar gynllunio gweithred a fydd yn delio â'r gwreiddiau'n fwy yng ngham pedwar. Un o athrawon grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr

Pa mor hawdd yw trin a thrafod y weithred
Gall myfyrwyr feddwl am syniadau cymhleth ac uchelgeisiol iawn ar gyfer gweithredu, heb sylweddoli faint o amser sydd ei angen i gynllunio a gweithredu, na pha mor aml y mae angen adolygu'r syniadau. Gall hyn greu tensiynau i'r athro/athrawes o ran cynnal yr agwedd Gallwch, mi allwch a rheoli cynlluniau afrealistig sy'n gallu gwneud i fyfyrwyr deimlo'n ddi-bŵer ac yn fethiant. Ffordd o osgoi hyn yw canolbwyntio ar weithgareddau fel Pa weithred? er mwyn gweld pa mor ymarferol yw syniad a thynnu sylw at broblemau posibl a fyddai'n cyfyngu ar weithredu.

Daethpwyd i sylweddoli nad oedd y weithred mor anodd ag roedden nhw'n ei feddwl, a bod angen dechrau ar lefel ymarferol. Un o athrawon grŵp Llundain



Grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr

Yn y noson rieni, roedden nhw'n dweud bod eu plant yn siarad am hyn gartref – a dweud y gwir, i rai, dyma'r unig beth roedden nhw'n sôn amdano ynglŷn â'r ysgol. Un o athrawon grŵp Llundain

Grŵp Llundain

Mae'r disgyblion wedi cynllunio cyflwyniad i'r ysgol gyfan, i gyfarfodydd llywodraethwyr, ac i'r prifathro, ac wedi dechrau system ailgylchu. Pan feddylia i faint o amser gymerodd hi imi wneud cam un, alla i ddim credu faint maen nhw wedi symud ymlaen. Roedd pob person ifanc yn y grŵp yn awyddus i gymryd rhan ac roedd gan bob un ran i'w chwarae yn y cynlluniau.
Un o athrawon grŵp Llundain

Cam 5 Mae cam pump yn rhoi'r cynlluniau ar waith.

i weithredu

Nod cam pump yw:

- galluogi myfyrwyr i weithredu, a chofnodi a monitro'r gweithredu hwnnw
- datblygu ac ehangu sgiliau cyfranogi – gweithredu'n gyfrifol.

1 Cofnodi’r weithred

Gweithgaredd ar gyfer cofnodi a monitro’r weithred.

Defnyddiwch y templed Cofnodi’r weithred (Taflen Waith 5a) er mwyn cadw cofnod o’r weithred wrth iddi ddigwydd. Dylech gynnwys y dystiolaeth a gasglwyd ym mhob cam, e.e. ffotograffau, pamffledi, recordiadau fideo neu sain, storïau, lluniau.

Roedd rhai ymatebion positif iawn ac mae’r dosbarth cyfan wedi ymateb yn aeddfed a deallus, ac maent yn gyffrous ynglŷn â’r syniad o weithredu’n gyfrifol. Un o athrawon grŵp Gogledd Cymru

Roeddent yn gallu gweld yr angen i ddangos y cynnydd yn glir a monitro pob gweithred. Un o athrawon grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr

Roedd yn wych i bobl ifanc heb lawer o feddwl ohonynt eu hunain. Roeddent yn falch iawn o fod wedi cyrraedd eu nod – cynhyrchu posteri a blychau ailgylchu – a chyflwyno cynllun ailgylchu i flwyddyn saith. Mae’r disgyblion yn awyddus i ddal ati a datblygu’r prosiect gydol y flwyddyn ysgol. Un o athrawon grŵp Llundain



Penderfynodd rhai myfyrwyr o grŵp De Cymru mai eu gweithred nhw fyddai trefnu digwyddiad codi arian.

Cam 5

Roedd y rhain ymhlith y gweithredoedd a ddewiswyd gan y myfyrwyr:

- gwneud fideo i ysgolion cynradd yn tynnu sylw at bwnc rhyfel
- creu prosiect addysg i gyfoedion yn ymwneud â materion beichiogi yn yr arddegau, anorecsia a bwlimia ac HIV/AIDS
- rhoi cyflwyniadau i lywodraethwyr ysgol ar ailgylchu a newid polisïau'r ysgol
- darbwyllo'r Pennaeth a llywodraethwyr yr ysgol i werthu siocled masnach deg yn yr ysgol
- datblygu drama am droseddau ieuenctid i'w pherfformio gan grŵp theatr
- ysgolion uwchradd yn codi arian mewn ysgolion cynradd

Mae hyn wedi bod yn gyfle i wneud mwy na dim ond codi arian. Un o athrawon grŵp Llundain

Gwnaeth rhai myfyrwyr o grŵp Llundain gemau bwrdd i godi ymwybyddiaeth o dlodi.



Wyddwn i ddim am fasnach deg cyn dechrau, ond erbyn hyn rwy'n gwybod y gallaf wneud gwahaniaeth. Myfyriwr, grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr

Trefnodd myfyrwyr yng Ngogledd Cymru ffair iawnderau dynol
Treuliwyd rhan helaeth o'r ddau ddiwrnod yn ymchwilio ac yn trafod hawliau myfyrwyr ac ar y diwrnod olaf bu'r myfyrwyr yn cynnal gweithdai am y ffair i'r gwahanol grwpiau blwyddyn. Roedd hyn yn gymorth i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu eu hunain, e.e. cynlluniwyd gemau i ddarlunio'r dewisiadau y mae'n rhaid i ffoaduriaid eu gwneud, defnyddiwyd chwarae rôl i gael pobl eraill i ymwneud â'r pwnc, a chasglwyd deisebau i'r AS lleol.

Cyfaddefodd y grwpiau a fu'n canolbwyntio ar ddigartrefedd faint yr oedd eu hagweddau wedi newid ar ôl holi menyw ddigartref leol a'i gweithiwr hostel. Cawsant eu sbarduno i lunio eu holiadur eu hunain yn canolbwyntio ar agweddau, a gwelsant faint roedd eu hagweddau eu hunain wedi newid at y rhesymau pam y mae pobl yn mynd yn ddigartref o gymharu ag adwaith sydyn eu cyfoedion yn y ffair.

Cam 6 Mae cam chwech yn adfyfyrio ar y broses Byd-Weithio! ac yn adeiladu arni. Mae'n gyfle i gyfeirio at y gweithgareddau llinell sylfaen yng ngham un e.e. Dyfodol delfrydol, Dylanwadu ar bobl, a'u gwneud eto.

i gnoi cil

Nod cam chwech yw:

- galluogi myfyrwyr i adfyfyrio ar yr hyn y maent wedi ei ddysgu a'i gyflawni, a beth y byddent yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.
- helpu'r myfyrwyr i ystyried sut y gallent gynnal y weithred ac adeiladu ar y sgiliau a ddatblygwyd ganddynt.
- datblygu ac ehangu sgiliau cyfathrebu – cyfathrebu a chyflwyno canfyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig; a chyfranogi – adfyfyrio ar y broses o gyfranogi.

Gweithgareddau i ddewis o'u plith

Adfyfyrio 58

Ysgrifennu adroddiad 58

Beth nesaf? 58

1 Adfyfyrio

Gweithgaredd ar gyfer adfyfyrio ar y broses Byd-Weithio!

Defnyddiwch y cwestiynau ar y daflen Adfyfyrio (Taflen Waith 6a) i drafod pa mor dda y gwnaeth y grŵp gydweithio; a wnaeth y weithred wahaniaeth; sut yr effeithiodd y weithred ar bob unigolyn; a beth y gellid ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Rhowch god lliw i'r pedwar dosbarth, e.e. coch ar gyfer Cydweithio a glas ar gyfer Gwneud gwahaniaeth, ac ysgrifennwch ymatebion i'r cwestiynau ar siapiau balŵn a dorrwyd allan. Gellid cyflwyno hyn fel arddangosfa yn y dosbarth.

Os na fu'r weithred mor llwyddiannus â'r disgwyl, gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol: Pam na fu'r weithred mor llwyddiannus â'r disgwyl? A oedd y grŵp yn rhy uchelgeisiol, neu ddim yn ddigon uchelgeisiol? A oedd gan y grŵp ddigon o adnoddau? A fyddai wedi bod yn well dewis gweithred wahanol? Pam?

2 Ysgrifennu adroddiad

Gweithgaredd cofnodi cynnydd.

Gwnewch restr o weithgareddau'r camau, y gweithgareddau asesu a gwerthuso, a'r gemau a gwblhawyd yn ystod y broses Byd-Weithio! Defnyddiwch y rhestr i ysgrifennu adroddiad am yr hyn yr ydych wedi ei wneud, beth rydych wedi ei fwynhau, a pha syniadau newydd a gynhyrchwyd.

Sut gwnewch chi symud ymlaen yn awr?

Sut basech chi'n hoffi gwneud gwahaniaeth y tro nesaf?

Gellir defnyddio hyn yn sail i adroddiad i rieni neu lywodraethwyr ar eich gwaith dinasyddiaeth fyd-eang weithredol.

3 Beth nesaf?

Gweithgaredd i ddathlu'r hyn a gyflawnwyd.

Ysgrifennwch lythyr neu e-bost i ddiolch i'r holl bobl a wnaeth gyfrannu tuag at y weithred. Eglurwch beth oedd yn llwyddiannus a beth nad oedd yn gymaint o lwyddiant, a rhowch enghreifftiau o dystiolaeth, e.e. ffotograffau, toriadau o bapurau newydd.

Cynlluniwch ffordd o ddathlu'r hyn a gyflawnwyd, e.e. seremoni wobrwyo i gyflwyno tystysgrifau (gweler y Dystysgrif Dinasyddiaeth fyd-eang weithredol – Taflen Waith 6b), cyflwyniad ar y weithred, anfon cardiau 'da iawn ti' at eich gilydd.

Mae Byd-Weithio! yn cynnwys llwyth o awgrymiadau ond nid yw'n gaethiwus nac yn seiliedig ar gynnwys. Yn bendant, gellir ei ddefnyddio â gwahanol feysydd pwnc ac mae'n rhoi mwy o hyder i athrawon fel fi nad ydynt yn arbenigwyr. Roedd y myfyrwyr yn hoffi gweithio mewn grwpiau a bod yn berchen arno – nhw oedd yn llywio'r cynnwys. Un o athrawon grŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr

Grŵp Llundain


The comments from the pupils were really interesting -

1. They all enjoyed the project + want to do more
2. They are all proud of what they achieved
3. Lots felt they had gained confidence really
4. Lots have realised that they can make a difference
5. They also felt good about planning something and seeing it through - this was really important to them
6. Surprisingly, they enjoyed the discussion and planning as much as the active part
7. It certainly united them as a group - which was a spin off from the main aim.

From my point of view, I would take longer over each step with less able children and I would use video as a means of recording the pieces so that step 4 would be "sharper". Easier to do. Also the video could have helped with a number of pupils who were absent over several sessions with serious issues outside school.

Roeddent yn ei chael yn anodd edrych yn ôl a sylweddoli popeth roeddent wedi ei wneud a'i gofio i gyd. Roeddwn yn rhyfeddu pa mor hawdd yr oeddent yn gallu cysylltu problem sbwriel yn yr ysgol â phynciau byd-eang ailgylchu a gwastraff. Un o athrawon Grŵp Llundain

Cam 6

Sylwadau gan fyfyrwyr yng ngrŵp Llundain



ne
re time to
things we
to do later
to anyones
view
Difference
ces was
it was very
work well because
each other what
& not rushing

d difference. We raised
think that all the
tal role in the
ple came and the
b smoothly. It was

Making a difference: We have made a difference because we have changed some parts in the show. The greatest sucsesses was the cat walk at the end.

Next time we will share more ideas. I think the greatest challenge of all was planning because there were a few differences in what we wanted. Planning more will also help.

I think that we worked well. We made sure that we agreed to a final ~~decision~~ decision. To improve this we need to have more ideas and make sure everyone contributes.

We will defernitely choose other people to work with next time. The greatest challenge of all was learning to co-operate with each other and that many unexpected things happened and we will have to live with that.

By Carl

Next time.

Cam 6

Sylwadau gan fyfyrwyr yng ngrŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr

Mae'n adnodd rhagorol i annog myfyrio ac felly ddealltwriaeth o bynciau byd-eang. Mae'n annog ystyried 'gweithredu', ac mae hynny'n bwysig. Sylw gan grŵp Ymholi ac Ymchwil Ysgolion Abertawe

Good, because we have learn't about the comunity.
You saw other peoples views.
It will make a difference if we put our actions into practice.
You can have your own say in lessons.

i asesu

Mae'r gweithgareddau asesu a gwerthuso isod yn galluogi myfyrwyr i fesur, cofnodi a monitro eu datblygiad eu hunain. Maent hefyd yn gymorth i werthuso'r gweithgareddau a defnyddiwyd. Maent yn syml, yn hyblyg ac yn hwyl, ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhannu profiadau, barn a theimladau, adfyfyrio ar newidiadau mewn dealltwriaeth a chynllunio ar gyfer y cam nesaf yn y dysgu.

Gellir trefnu pob darn o offer fel hunan-asesiad, asesiad o gymheiriaid, o grŵp neu o athro/athrawes, a gellir ei ddefnyddio ar wahanol gyfnodau yn y broses Byd-Weithio!, e.e. cyn neu ar ôl gweithgaredd, gwers neu gam, neu ar ddiwedd y broses gyfan.

Gweithgareddau asesu a gwerthuso i ddewis o'u plith

Portffolio 66
Blodau disgwyliadau 66
Grwpiau ffocws 66
Siart sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang weithredol 66
Matrics disgwyliadau dinasyddiaeth fyd-eang weithredol 67
Olwyn werthuso 67
Grid 'cyn ac ar ôl' 68
Graff llwyddiant 68
Coflyfr dysgu 68
Ffotograffau 68
Gwerthuso creadigol 69
Wynebau hapus/trist 69
Ysgwyd dwylo 69
Continwwm 69
Yr olwyn ddwbl 69
Wal graffiti 70
Cardiau sylwadau 70
Silwét teimladau 70

1 Portffolio

Crëwch bortffolio o waith o bob un o'r chwe cham, e.e. graffeg, gwaith ysgrifenedig, ffotograffau. Bydd hyn yn darparu tystiolaeth o'r sgiliau a ddefnyddiwyd a'r wybodaeth a ddysgwyd.

2 Blodau disgwyliadau

Mae'r athro yn egluro disgwyliadau Byd-Weithio!, e.e. cael hwyl wrth ddysgu; dysgu sgiliau newydd; archwilio cysylltiadau rhwng y lleol a'r byd-eang; cydweithio fel grŵp; bod yn ddefnyddiol ac yn berthnasol. Ysgrifennwch y rhain ar fatrics Blodau Disgwyliadau (Taflen Waith A).

Ar gardiau bychain ychwanegwch ddisgwyliadau'r dosbarth ynglŷn â'r hyn yr hoffent i Byd-Weithio! fod – un ar bob cerdyn – a'u rhoi ar ddalen o bapur. Rhowch y disgwyliadau tebyg gyda'i gilydd. Ar y matrics, ysgrifennwch frawddegau i grynhoi pob disgwyliad.

Edrychwch ar y matrics ar ddiwedd pob cam, a thynnwch lun blodyn i ddangos i ba raddau y llwyddwyd i gwrdd â'r disgwyliadau. Dylai fod chwe blodyn erbyn diwedd cam chwech. Mae pob un o betalau'r blodyn yn dangos camau bychain tuag at wireddu'r disgwyliadau. Os oes llawer o betalau, mae'r disgwyliadau wedi eu gwireddu.

3 Grwpiau ffocws

Rhannwch yn bum grŵp ffocws a dewiswch un o'r canlynol: Grŵp ffocws ymholi; Grŵp ffocws cyfranogi; Grŵp ffocws cysylltu rhwng y lleol a'r byd-eang; Grŵp ffocws hwyl; Grŵp ffocws cofnodi.

Mae pob grŵp ffocws yn defnyddio graffeg i fonitro a chofnodi sut mae'r dosbarth yn teimlo ar ddiwedd pob cam, neu ar ddiwedd y broses Byd-Weithio! Gweler y Llinell-sgôr ymholi; Siart cyfranogi; Graff cysylltu'r lleol a'r byd-eang; Bwrdd dartiau hwyl; Taflen gofnodi (Taflenni Gwaith B, C, CH, D ac DD).

Trefnwch ffyrdd o gasglu gwybodaeth gan bawb yn y dosbarth. Gall hyn ddigwydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Ar ddiwedd cam chwech cyflwynwch y canfyddiadau mewn modd diddorol, e.e. gan ddefnyddio cyflwyniadau Power-point neu fideo â thaflenni. Nodwch y canfyddiadau mwyaf a lleiaf diddorol, patrymau cyffredinol, a gwybodaeth nad oedd yn cymryd ei lle mewn unrhyw batrwm.

4 Siart sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang weithredol

Gellir defnyddio'r Siart sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang weithredol (Taflen Waith E) i gofnodi pa mor dda mae'r disgyblion yn teimlo y maent wedi cyfathrebu, cymryd rhan ac adfyfyrio. Gellir ychwanegu dangosyddion sgiliau eraill ar waelod y matrics, neu gall y myfyrwyr ddewis eu dangosyddion eu hunain a'u cyflwyno ar ddarn gwahanol o waith graffig.

5 Matrics disgwyliadau dinasyddiaeth fyd-eang weithredol

Gellir defnyddio'r Matrics disgwyliadau dinasyddiaeth fyd-eang weithredol (Taflen Waith F) i fesur a chofnodi a yw'r myfyrwyr yn gweithio tuag at ddisgwyliadau Byd-Weithio!, yn eu cyflawni, neu'n gweithio y tu hwnt iddynt.

6 Olwyn werthuso

Tynnwch lun cylch a'i rannu'n wahanol adrannau i gynrychioli gwahanol ddangosyddion, e.e. y sgiliau a ddefnyddiwyd, y gweithredoedd a gyflawnwyd. Lliwiwch gyfran o bob segment yn y cylch mewnol i ddangos i ba raddau y bodlonwyd y dangosydd – mae lliwio blaen y lletem yn unig yn dangos mai prin y cafodd y nod ei gyrraedd o gwbl; mae lliwio'r lletem gyfan yn dangos i'r nod gael ei gyflawni'n gyfan gwbl. Gellir llenwi'r lletem allanol â sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer newid.



7 Grid ‘cyn ac ar ôl’

Gwnewch gopi o’r grid isod i gofnodi teimladau, meddyliau, cysylltiadau a delweddau cysylltiedig â rhan o’r broses Byd-Weithio! cyn ac ar ôl ei chyflawni.

Grid cyn ac ar ôl		
	Cyn	**Ar ôl**
Teimladau		
Meddyliau		
Cysylltiadau â’r rhan o’r broses		
Delweddau neu luniau sydd gennych yn eich meddwl		

8 Graff llwyddiant

Tynnwch lun graff er mwyn mesur a chofnodi llwyddiant dangosydd. Labelwch yr echelin fertigol â dangosydd, e.e. cryfder y naws, lefelau egni, a labelwch yr echelin lorweddol ag amser, e.e. oriau, camau. Nodwch unrhyw bwyntiau arwyddocaol drwy roi sylwadau ar uchafbwyntiau ac isafbwyntiau’r graff. Mae hefyd yn bosib cofnodi newid drwy ddefnyddio afon, gan ddefnyddio ffurf yr afon i gynrychioli pa mor dda mae’r broses yn mynd rhagddi.

9 Coflyfr dysgu

Lluniwch goflyfr neu ddyddiadur dysgu i gofnodi’r hyn sy’n digwydd drwy gydol y broses Byd-Weithio! Dylech ganolbwyntio ar y sgiliau a ddatblygwyd, y wybodaeth a’r ddealltwriaeth a enillwyd, hoffterau a phethau nad oeddech yn eu hoffi, a theimladau fel unigolyn neu fel dosbarth.

10 Ffotograffau

Defnyddiwch ffotograffau neu recordiadau fideo a wnaed yn ystod y gweithgareddau neu’r digwyddiadau i drafod beth ddigwyddodd, a sut y gellid gwella arno y tro nesaf.

11 Gwerthuso creadigol

Defnyddiwch y siart Gwerthuso creadigol (Taflen Waith FF) i fynegi teimladau tuag at rannau o'r broses Byd-Weithio!, e.e. gweithgaredd, cam, gweithred.

12 Wynebau hapus/trist

Adfyfyriwch ar ran o'r broses Byd-Weithio! a thrafodwch ei hagweddau cadarnhaol a negyddol. Gwnewch siart ac ysgrifennwch sylwadau cadarnhaol o dan yr wynebau hapus, a sylwadau negyddol o dan yr wynebau trist, gyda thrydedd colofn ar gyfer y gwelliannau sydd eu hangen.

13 Ysgwyd dwylo

Os cafodd y myfyrwyr fwynhad wrth wneud gweithgaredd, gwers neu gam yna mae'r myfyrwyr yn codi eu dwylo uwch eu pennau ac yn eu hysgwyd. Os na wnaethon nhw fwynhau yna maent yn cadw eu dwylo wrth eu hochr ac yn eu cadw'n llonydd.

14 Continwwm

Mae'r myfyrwyr yn sefyll mewn llinell yn ôl sut maen nhw'n teimlo ynglŷn â rhan o'r broses Byd-Weithio! Mae'r rhai sydd â theimladau cadarnhaol yn sefyll ar un pen i'r llinell, mae'r rhai sydd â theimladau niwtral yn sefyll yn y canol, ac mae'r rhai sydd â theimladau negyddol yn sefyll ar ben arall y llinell. Gellir defnyddio hyn fel sail i drafodaeth ynghylch beth sydd angen ei wneud i wella'r sefyllfa er mwyn galluogi pobl i symud tuag at y pen cadarnhaol. Hefyd gellir defnyddio continwwm i archwilio datganiadau gyda'r eithafion ar bob pen, neu roi 'Bob amser' yn un pen, 'Ambell waith' yn y canol, a 'Byth' yn y pen arall.

15 Yr olwyn ddwbl

Mae'r dosbarth yn ffurfio dau gylch a'r un nifer ym mhob un, y naill o fewn y llall. Mae'r cylchoedd yn cylchdroi yn groes i'w gilydd hyd nes bydd yr athro'n dweud 'stopiwch'. Yna mae pawb yn gofyn cwestiwn i bwy bynnag sydd gyferbyn, e.e. beth wnaethon nhw ei fwynhau neu i ba raddau roedden nhw'n teimlo'n rhan o'r peth. Gwneir hyn dair gwaith.

16 Wal graffiti

Gellir defnyddio Wal graffiti drwy gydol y broses Byd-Weithio! fel lle i ddangos pa mor dda mae'r gwersi'n mynd. Gellir rhoi dalennau siart-troi ar y wal, gyda phennawd neu gwestiwn ar bob un, e.e. Lefelau canolbwyntio; Sut gallaf i ddefnyddio hyn yn fy mywyd bob dydd? Ydw i'n ei ddeall yn iawn?

17 Cardiau sylwadau

Ysgrifennwch sylwadau ar gardiau a'u rhoi mewn blwch postio yn yr ystafell ddosbarth. Mae dechreuadau brawddegau yn ffordd ddefnyddiol o fframio sylwadau, e.e. Dysgais fod… Rwyf eisiau dysgu mwy am…. Cymerwch garden o'r blwch, a'i defnyddio yn sail i drafodaeth.

18 Silwét teimladau

Tynnwch lun person yn gwisgo het ac yn cario cist offer. Wrth ymyl yr het, gwnewch nodiadau ar yr hyn a ddysgwyd, ac wrth ymyl y gist offer nodwch y syniadau, y sgiliau a'r pethau cadarnhaol eraill a gafwyd. Tynnwch lun calon ar y person a nodwch deimladau arni. Tynnwch lun bin sbwriel er mwyn dangos yr hyn na fu'n llwyddiant a'r hyn na ddylid eu gynnwys y tro nesaf.

Sylwadau gan athrawon yng ngrŵp Gogledd-ddwyrain Lloegr
Gall athrawon deimlo'n ansicr ynghylch eu barn am fyfyrwyr pan nad oes ganddynt farciau ar eu cyfer. Ond mae'r myfyrwyr fel petaent yn teimlo'n fwy sicr – ac yn deall yn llawer eglurach faint y maent wedi ei gyfrannu, pa mor agos y buont yn ymwneud â'r gweithgaredd, a beth y byddent yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Bu myfyrwyr yn defnyddio'r gweithgareddau asesu a gwerthuso heb sylweddoli eu bod yn cael eu hasesu.

Mae'r myfyrwyr yn fy ysgol i yn ysgrifennu eu hadroddiadau eu hunain – roedd rhai o'r gweithgareddau'n dda ar gyfer hyn. Roeddent yn tueddu i'w hasesu eu hunain yn rhy uchel neu'n rhy isel, neu ddweud, 'alla i ddim' oherwydd bod rhaid iddynt feddwl am beth roeddent wedi ei wneud. Roedd yn ymarfer defnyddiol.

Grŵp Gogledd Cymru

Roedd y myfyrwyr yn synnu bod yr herwyr hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn bywyd. Un o athrawon grŵp Llundain

Grŵp Gogledd Cymru

i chwarae

Mae gemau yn rhan annatod o'r broses Byd-Weithio! Maen nhw'n gwneud gwersi Dinasyddiaeth yn hwyl ac yn helpu myfyrwyr i elwa mwy ar weithgareddau drwy ymateb i lefelau egni'r dosbarth a dylanwadu arnynt.

Rhannwyd y gemau canlynol yn wahanol gategorïau yn ôl beth yw'r nod, sef bywiogi'r dosbarth; cael y dosbarth i ymlacio; neu ddatblygu sgiliau cydweithredu a chyfathrebu.

Gemau

Gemau bywiogi	74
Gemau ymlacio	75
Gemau cydweithredu	76
Gemau cyfathrebu	77

1 Selsig

Gemau bywiogi

Eisteddwch mewn cylch, ag un person yn y canol. Yn eich tro gofynnwch gwestiynau i'r person yn y canol, e.e. 'Beth yw dy enw canol?' Mae'r person yn y canol yn ateb, 'selsig' heb wenu na chwerthin. Os yw'n gwenu mae'r holwr yn cael eistedd yn y canol.

2 Salad ffrwythau

Gemau bywiogi

Eisteddwch ar gadeiriau mewn cylch, gydag un gadair yn llai na'r nifer o bobl. Rhoddir enw un o dri math o ffrwyth i bawb – e.e. afalau, bananas ac orennau. Mae'r person sydd heb gadair yn sefyll yn y canol ac yn gweiddi 'afalau', 'bananas' neu 'orennau'. Os ydyn nhw'n gweiddi 'afalau', yna mae'r un sy'n galw a phob un 'afal' yn cyfnewid seddau. Bydd un person ar ôl yn y canol ar gyfer yr alwad nesaf. Os yw'r un sy'n galw yn gweiddi 'salad ffrwythau' mae pawb yn cyfnewid seddau. Gellir chwarae'r gêm drwy ddefnyddio categorïau eraill, e.e enwau gwledydd, enwau AS neu AC.

3 Mae'r haul yn tywynnu

Gemau bywiogi

Estyniad ar Salad ffrwythau yw'r gêm yma. Eisteddwch ar gadeiriau mewn cylch, gydag un gadair yn llai na'r nifer o bobl. Mae'r person yn y canol yn dweud, 'Mae'r haul yn tywynnu ar… y bobl a gerddodd i'r ysgol heddiw' neu 'ar ddinasyddion byd-eang gweithredol'. Yna mae'r bobl yma a'r un sy'n galw yn cyfnewid seddau. Bydd un person ar ôl heb gadair, a hwnnw sy'n galw nesaf.

4 Zip-zap-zop

Gemau bywiogi

Sefwch mewn cylch ac anfon egni o gwmpas yr ystafell. Mae'r egni'n cael ei anfon o gwmpas drwy guro dwylo i gyfeiriad y person y mae'r egni'n cael ei anfon ato. Os yw'r egni'n cael ei anfon o gwmpas y cylch mewn un cyfeiriad o un person i'r nesaf a hwythau'n eistedd wrth ymyl ei gilydd, mae'r person sy'n anfon yr egni'n galw 'zip'. Os yw'r derbynnydd yn dewis gwrthod yr egni mae'n codi ei ddwylo ac yn galw 'zap'.
Mae hyn yn dychwelyd yr egni yn ôl at yr un a'i hanfonodd, ac mae hwnnw/honno wedyn yn anfon yr egni ymlaen at rywun arall. Gelwir 'zop' pan mae'r un sy'n anfon yr egni yn dewis taflu'r egni ar draws yr ystafell.

5 Yr un di-hwm

Gemau bywiogi

Mae pawb, ond un, yn cropian ar ei bedwar, yn cau ei lygaid ac yn hymian. Mae pawb yn gwrando'n astud ac yn closio'n agos, agos at yr un di-hwm.

6 Tag cofleidio

Gemau bywiogi

Gêm chwarae tag. Os yw dau yn cofleidio'i gilydd maent yn ddiogel, ond dim ond am dair eiliad.

7 Llinell eliffantod

Gemau bywiogi

Sefwch yn rhes, rhowch eich dwylo rhwng eich gliniau a gafael yn y person y tu ôl ichi. Yna ceisiwch gerdded.

---

1 Drychau

Gemau ymlacio

Eisteddwch yn barau yn wynebu eich gilydd. Mae un person yn dal cledrau ei ddwylo o flaen y llall ac yn eu symud yn araf. Mae'r llall yn canolbwyntio ar y symudiadau hyn ac yn eu copïo neu yn eu hadlewyrchu drwy ddefnyddio'i ddwylo.

2 Pobl y gofod

Gemau ymlacio

Cerddwch o gwmpas yr ystafell yn araf iawn fel petaech yn cerdded yn y gofod. Pan fydd yr athro/athrawes yn clicio bysedd stopiwch a rhewi eich symudiadau.

3 Llonyddu

Gemau ymlacio

Eisteddwch yn gefnsyth a'ch traed ar y llawr. Caewch eich llygaid ac eistedd mor llonydd â phosib, gan ganolbwyntio ar anadlu i mewn yn araf drwy'r geg ac allan drwy'r trwyn. Gwrandewch ar y synau o'ch cwmpas. Pa synau o'r tu allan a glywch chi? Pa synau o'r tu mewn? Agorwch eich llygaid ar ôl ychydig funudau.

4 Dychmygu

Gemau ymlacio

Dychmygwch eich bod yn gwisgo clogyn sy'n eich gwneud yn anweledig. Camwch i mewn i'ch llong hedfan a gadael yr ystafell ddosbarth. Hedfanwch drwy adeiladau'r ysgol, gan feddwl am y pethau y mae angen eu gwella neu eu newid. Hedfanwch y tu allan, o gwmpas iard yr ysgol ac uwchben yr adeiladau, gan feddwl beth y gellid ei wneud i greu lle gwell i bawb. Hedfanwch yn uwch ac edrych i lawr ar yr ardal leol, gan feddwl am y pethau sydd o bwys yn y gymuned a beth sydd angen sylw. Wedyn ewch yn uwch eto ac ystyried pynciau sy'n berthnasol i'r Deyrnas Unedig, ac i'r byd. Yna hedfanwch yn dawel yn ôl i'r ysgol, glaniwch ar eich sedd, a thynnu eich clogyn.

1 Ymaflyd breichiau

Gemau cydweithredu

Y nod yw bod pawb yn ennill o leiaf 20 o weithiau yn yr amser byrraf posib. Faint o amser mae hi'n ei gymryd i'r dosbarth sylweddoli y cyrhaeddir y cyfanswm mewn byr amser trwy gydweithio, a gadael i bawb ennill?

2 Peiriannau dynol

Gemau cydweithredu

Mae grwpiau bach yn creu peiriant gan ddefnyddio eu cyrff yn unig. Wedi deng munud o ymarfer, mae'r dosbarth yn dyfalu beth yw'r 'peiriant'.

3 Beth yw hwn…

Gemau cydweithredu

Sefwch mewn cylch a phasio gwrthrych o gwmpas yr ystafell. Er enghraifft, pan fydd pen yn cael ei basio, dywedir 'Pen yw hwn'. Mae'r un sy'n derbyn y pen yn dweud, 'Beth yw e?' ac mae'r un sy'n ei basio ymlaen yn dweud, 'Pen yw e', ac mae'r un sy'n ei dderbyn yn cymryd y pen ac yn dweud, 'O, pen yw hwn'. Mae'r sgwrs hon yn mynd o gwmpas y cylch hyd nes bod pawb wedi cael cyfle i basio'r gwrthrych ymlaen a rhoi sylwadau arno. Yna mae ail wrthrych yn cael ei gyflwyno, sy'n cael ei ddilyn gan drydydd a phedwerydd gwrthrych. Y nod yw cael y dosbarth i basio a derbyn gwrthrychau yr un pryd, fel bod rhythm yn cael ei greu gyda phobl yn dweud y geiriau yn yr un dôn ac ar yr un pryd.

4 Cwlwm dynol

Gemau cydweithredu

Sefwch mewn cylch a dal dwylo. Gwnewch gwlwm drwy glymu am eich gilydd, e.e. drwy fynd o dan neu dros freichiau rhywun arall. Unwaith mae cwlwm wedi'i greu ewch yn ôl i'r cylch gwreiddiol.

5 Cerfluniau pŵer

Gemau cydweithredu

Ewch yn barau neu grwpiau bychain a chreu cerflun neu ddarlun yn darlunio sefyllfa lle mae gan un person bŵer dros rywun neu rywrai eraill. Mae'r dosbarth yn dyfalu beth sy'n digwydd. Maen nhw'n trafod pa safle (y safle pwerus, neu'r safle sy'n ymostwng i'r pŵer) sy'n teimlo fwyaf cyfforddus neu gyfarwydd iddyn nhw. Sut a beth wnaethon nhw ei deimlo pan oedden nhw yn y safle pwerus, ac yn y safle lle'r oedd ganddynt lai o bŵer? Beth mae hyn yn ei ddysgu inni am y berthynas rhwng gwahanol bobl?

6 Newydd-ddyfodiad

Gemau cydweithredu

Eisteddwch mewn cylch. Mae un person ar y tro yn mynd i ganol y cylch ac yn ceisio rheoli'r grŵp. Gallent geisio bod yn swnllyd, yn foslyd, yn awdurdodol neu yn dawel, ond hefyd yn ddigalon iawn neu'n ceisio cael sylw. Pa ffyrdd sy'n gweithio orau? Beth allwn ni ei ddysgu o hyn yn nhermau deinameg y grŵp?

7 Cylch coed yn cwympo

Gemau cydweithredu

Mae grwpiau bychain yn sefyll mewn cylch ac un yng nghanol y cylch. Mae'r un yn y canol yn gadael iddo'i hun gwympo a chael ei ddal gan y cylch.

---

1 Gwrando gweithredol

Gemau cyfathrebu

Ewch yn barau. Mae un yn ei gyflwyno ei hun ac yn dweud rhywbeth diddorol amdano/amdani ei hun, e.e. beth ddigwyddodd ar ddiwrnod ei ben-blwydd/phen-blwydd diwethaf. Mae'r llall yn gwrando'n astud, ac yn ailadrodd yr hyn a ddywedwyd yn ôl wrth y grŵp.

2 Y llinell ddistaw

Gemau cyfathrebu

Sefwch mewn llinell ddistaw yn nhrefn mis eich pen-blwydd, enwau canol yn nhrefn yr wyddor, etc. Pa mor hawdd yw hyn? Beth fyddai'n gwneud pethau'n haws?

3 Tynnu llun â'ch trwyn

Gemau cyfathrebu

Ewch yn barau. Mae un yn tynnu llun anifail â'i drwyn/thrwyn a'r llall yn dyfalu beth yw.

4 Dwrn agored

Gemau cyfathrebu

Ewch yn barau. Mae un yn dal ei ddwrn ar gau a'r llall yn ceisio ei gael i'w agor.

5 Gwrandewch

Gemau cyfathrebu

Ewch yn barau – A a B. Mae pob ‘A’ yn siarad am beth wnaeth dros y penwythnos, ac mae pob ‘B’ yn gwrando’n astud ar stori ‘A’ am y pum munud cyntaf. Pan fydd yn clywed sŵn a benodwyd o flaen llaw (curo dwylo, sŵn cloch), mae pob ‘B’ yn newid ei ymddygiad ac yn stopio gwrando. Yn lle hynny maen nhw’n gwneud popeth a allant er mwyn peidio â gwrando, ac yn anwybyddu neu’n torri ar draws ‘A’. Ar ddiwedd y deng munud mae pob partner yn disgrifio sut roedd yn teimlo; sut gwnaeth ‘A’ ddelio ag ymddygiad ‘B’, ac ym mha ffordd y byddai’r ddau ohonynt yn ymateb i sefyllfa debyg yn y dyfodol.

6 Cadarnhaol a negyddol

Gemau cyfathrebu

Ewch yn ddau grŵp. Mae un grŵp yn meddwl am nifer o wahanol gwestiynau i ofyn i’r grŵp arall. Mae’r ail grŵp yn cael ei rannu ymhellach yn ddau hanner – mae un hanner yn ymateb yn gadarnhaol i bob cwestiwn, e.e. Ie, mae hynny’n ddiddorol. Rwy’n hoffi’r syniad yna. Mae’r hanner arall yn ymateb yn negyddol, e.e. Na, nid fy lle i yw poeni am hynny. Does gen i ddim diddordeb. Mae hyn yn ddiflas. Ar ôl 10 munud o gwestiynau a sgwrsio, mae’r rhai sy’n gofyn y cwestiynau yn ceisio dynodi pa fyfyrwyr yw’r rhai ‘cadarnhaol’ a pha rai yw’r myfyrwyr ‘negyddol’. Mae’r dosbarth yn trafod sut deimlad yw hi i ateb yn gadarnhaol neu’n negyddol, a sut brofiad yw siarad â rhywun sydd bob amser yn gadarnhaol neu wastad yn negyddol.

7 Newid rôl

Gemau cyfathrebu

Rhannwch yn grwpiau o bump a pherfformio sefyllfa, fel trip i siopa neu fynd am dro yn y goedwig, gyda phob aelod yn cymryd un o’r rhannau canlynol:

ymostyngol – ychydig iawn mae’r person hwn yn ei ddweud ac mae bob amser yn cytuno â gweddill y grŵp

ceffyl blaen – mae’r person hwn yn siarad llawer ac yn ceisio rheoli penderfyniadau’r grŵp

tanseiliwr – mae’r person hwn yn ceisio creu problemau (gallai fod yn llafar iawn, neu’n ddistaw iawn)

hwyluswr – mae’r person hwn yn ceisio gwneud pethau’n haws i bawb

difater – nid yw’r person hwn yn malio dim am y grŵp.

Wrth i’r sefyllfa gael ei pherfformio, mae’r grwpiau eraill yn dyfalu pwy sy’n chwarae pa ran. Mae’r dosbarth wedyn yn trafod pob rôl, a yw pobl yn perthyn i’r categorïau yma, ac os ydyn nhw, sut i ddelio â nhw er mwyn sicrhau bod tegwch o fewn grwpiau o bobl.

Roedd y gemau'n help mawr i ysgafnhau'r gweithgareddau a gwneud y gwersi'n fwy o hwyl. Un o athrawon grŵp Llundain



Syniad rhagorol ar gyfer grwpiau ieuenctid a gweithgareddau allgyrsiol. Un o athrawon grŵp De Cymru



ati i gysylltu â ni

Mae Byd-Weithio! hefyd ar gael ar ffurf PDF ar wefannau'r asiantaethau isod.

Mae copïau pellach o Byd-Weithio! ar gael, am £15, o EDS: 01795 427 614

ActionAid
Schools and Youth
Hamlyn House
Macdonald Road
Archway
Llundain N19 5PG
T: 020 7561 7561
www.actionaid.org/schoolsandyouth

CAFOD
Schools and Youth
Romero Close
Stockwell Road
Llundain SW9 9TY
T: 020 7733 7900
www.cafod.org/schools/teachersresources

CAFOD Cymru
11 Heol Richmond
Caerdydd CF24 3AQ
T: 029 2045 3360
www.cafod.org.uk/wales

Christian Aid
Schools and Youth
PO Box 100
Llundain SE1 7RT
T: 020 7620 4444
www.christianaid.org.uk/learn

Cymorth Cristnogol
27 Heol yr Eglwys
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd CF14 2DX
T: 029 2061 4435

Oxfam Development Education Team
Oxfam
274 Banbury Road
Oxford OX2 7D2
T: 01865 311 311
www.oxfam.org.uk/coolplanet

Oxfam Cymru
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT
T: 0870 0109 007

Save the Children
Education Unit
17 Grove Lane
Camberwell
Llundain SE5 8RD
T: 020 7703 5400
www.savechildren.org.uk/education

Achub y Plant Cymru
Tŷ Ffenics
8 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
T: 029 2039 6838

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm Byd-Weithio! ddiolch i'r 1190 o fyfyrwyr a'u hathrawon a gymerodd ran yn y prosiect ymchwil gweithredol ac a gyfrannodd at ddatblygu'r canllaw hwn. Hoffem ddiolch hefyd i staff yr adrannau addysg ddatblygu ym mhob un o'r asiantaethau nawdd, ac i'n holl fudd-ddeiliaid sydd wedi buddsoddi amser ac egni ym mhob cam o'r broses.

Anuta Roddick am syniadau o 'Take it personally'

ane Davies, Taahra Ghazi, Alison Rudd *ActionAid*

Angela Finlayson, Kim Nicholas, Sue Scanlon, Frank Sudlow *CAFOD*

Matthew Edwards, Elenid Jones, Daniel Sinclair *Cymorth Cristnogol*

Hillary Corlett, Louise Douglas, Katrina Gass, Ange Grunsell, Catherine Hester, a Mary Young *Oxfam*

Andrew Hutchinson, Duncan Little, Rebecca Morgan, Richard Powell *Achub y Plant*

Alwyn Oliver

David Barrs, Will Ord *Cymdeithas yr Athrawon Dinasyddiaeth*

Toni Schiavone, *Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol*

Tony McBride, Terry O'Leary *Cardboard Citizens*

Dominic Miles, *Cyfanfyd*

Sara Gibbs *Child-to-Child Project*

Rinku Mitra a Sarah de Nordwell *Sefydliad y Gymanwlad*

David Kerr *Yr Adran Addysg a Sgiliau*

Eryl Samuel, *Ymgynghorydd Cyswllt ar gyfer Daearyddiaeth, ESIS*

David Archer *Reflect*

Pippa Bobbet *Spiral*

Sheila Bennell *Canolfan Addysg Byd, Bangor*

Athrawon

Angela Atkinson; Peter Connor; Eirlys Wynn Davies; Stephen Davies; Stuart Davies; Jane Devereux; Tony Eames; Helen Elderkin; Joanne Francis; Peter Hall; Sara Hannafin; Althea Harris; Trevor Harvey; Ann Hudson; Awel Irene; Gaynor Jess; Catrin Jones; Franka Kavelege; Kerry Kilminster; Bryan Langley; Barbara Maycock; Helen Miller; Alison Murphy; Mike Ormerod; Sheila Orritt; Pete Pattison; Sue Rivers; Jean Robson; Dani Rose; Nighat Shaheen; Karen Strachan; Sue Stroud; Charlotte Swingler; Sr Michaela Toulmin; Angela Tullock; Neera Vyas; Eleanor Walley; Kirsty Welch; Elizabeth Wiltshire; Christine Ward; John Ward; Amanda Williams; Tat Wong; Howard Worgan

Ysgolion

Albany School, Enfield, Llundain; Anglo-European School, Ingatestone, Essex; Bedwas High School, Bedwas; Belmont Comprehensive School, Belmont, Durham; Bishop Walsh Roman Catholic School, Sutton Coldfield, Birmingham; Brownhills High School, Tunstall, Stoke-on-Trent; Brynmawr Foundation School, Brynmawr; Burleigh Community College, Loughborough, Swydd Gaerlŷr; Castlegreen Community School, Sunderland; Cyfarthfa High School, Merthyr Tudful; Darland High School, Rossett; Deptford Green School, New Cross, Llundain; Fort Pitt Grammar School, Chatham, Swydd Gaint; Framwellgate School, Durham; Gable Hall School, Corringham, Essex; Grey Coat Hospital School, Westminster, Llundain; Holy Trinity Roman Catholic Secondary School, Small Heath, Birmingham; Houghton Kepier School, Houghton-le-Spring, Tyne and Wear; Hylton Red House, Sunderland; Langdon School, East Ham, Llundain; Langleywood School, Slough; Macmillan College, Middlesborough, Cleveland; Manor Park Community School, Nuneaton, Coventry; South Leys School, Scunthorpe, Gogledd Swydd Lincoln; St Aidan's Roman Catholic School, Sunderland; St Bernard's Convent School, Slough; St James Catholic High School, Colindale, Llundain; St Katherine's School, Pill, Bryste; St Robert of Newminster School, Tyne a Wear; The Chafford School, Rainham, Essex; Thornhill Secondary School, Sunderland; Tom Hood School, Leytonstone, Llundain; Toot Hill Comprehensive School, Bingham, Nottingham; Tower Hamlets Pupil Referral Unit, Llundain; Woodside Special School, Belvedere, Swydd Gaint; Ysgol Gyfun Glantaf, Caerdydd; Ysgol Gyfun Llanhari, Pont-y-clun, Rhondda-Cynon-Taf; Ysgol Uwchradd Caergybi, Ynys Môn; Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Powys; Ysgol y Creuddyn, Bae Penrhyn; Ysgol Y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd

© ActionAid 2003
Nid oes angen gofyn am ganiatâd i atgynhyrchu'r deunyddiau hyn, ar yr amod mai dim ond mewn sefydliadau addysgol y gwneir copïau ac na chaiff copïau o'r fath eu gwerthu, eu llogi na'u rhoi ar fenthyg i unrhyw unigolion na sefydliadau eraill na'u defnyddio mewn unrhyw gyhoeddiadau eraill.

Dyluniwyd gan: www.philosophydesign.com

Rydw i wedi dysgu llwyth o bethau newydd a rhyfeddol. A dweud y gwir, rydw i wedi mwynhau pob dim!

Myfyriwr, Ysgol Langdon, Llundain

Mae Byd-Weithio! wedi ehangu eu disgwyliadau.

Sue Rivers, Ysgol Uwchradd Bedwas, Caerphilly

O'r holl wybodaeth am ddinasyddiaeth yn fy mlwch llythyrau, Byd-Weithio! oedd yr unig brosiect yr oedd gen i ddiddordeb ynddo am ei fod wedi ei seilio ar sgiliau, yn ddiragfarn ac yn hwyl.

Peter Connor, Ysgol Uwchradd Framwellgate, Durham

ISBN 1-872502-91-1

9 781872 502915 >